YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEDI, 1870.

ANRHYDEDDU CRIST.

Y MAE Crist yn cael ei anrhydeddu yn anghyffredin mewn proffes y dyddiau yma, fel yr oedd yn y dyddiau gynt gan y rhai oeddynt yn dywedyd Arglwydd, Arglwydd, tra, ar yr un pryd, yn gomedd dwyn yr un o'i orchymynion i ymarferiad.

Tybia yr uniawngred eu bod yn ei anrhydeddu yn iawn pan yn ei osod allan fel Duw a dyn, a rhyfedd fel y mae y cyfryw yn condemnio yr Undodwr o neb, yr hwn sydd yn amheu eu syniadau hwy, ac yn credu yn drwyadl mai cyfeiliornus ydynt.

Maent yn selog iawn ac yn llawn cyffro rhag ofn eu bod yn ei ddarostwng a'i wneuthur yn llai na Duw. Ydynt, y maent yn hòni ei Dduwdod gyda'r ffraethineb mwyaf, ac yn cyhoeddi, yn bur ddiseremoni, y ddedfryd *gwae* uwchben pob dyn a amheuo eu sibboleth hwy; ond, ar yr un pryd, tra y maent yn siarad mor uchel am urddas ei berson, gofynwn pa gymaint o'i yspryd sydd yn eu llywodraethu? Paham na welant, a phaham na ddeallant, nad ydynt yn anrhydeddu Crist mewn gwirionedd wrth ei ddyrchafu felly mewn geiriau, ond wrth fod yn feddianol ar ei yspryd? Paham na roddant wrandawiad i'r Iesu pan yn dywedyd, "Canys pwy bynag a wna ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd, efe yw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm mam."

Ar y llaw arall, y mae llawer o Undodiaid yn proffesu bod yn selog iawn o blaid gwirionedd Crist, fel y galwant ef, ac o blaid athrawiaethau cywir yn *nghylch* Crist ac iachawdwriaeth; ond y cwestiwn yw, pa gymaint y maent wedi ei anrhydeddu, a pha beth ydyw gwerth eu hathrawiaethau cywir yn ei *gylch*, os nad ydynt, ar yr un pryd, yn byw ei athrawiaethau ef? Ni waeth beth yw hyd a lled ein gwybodaeth *yn nghylch* Crist a'i athrawiaethau, os nad ydynt yn ein puro a'n glanhau, ac felly yn ein gwneuthur yn debyg i Fab Duw, yr hwn a ddywedodd ac a brofodd "Mai ei fwyd a'i ddiod oedd cyflawni ewyllys y Tad nefol."

Y mae lle i ofni mai ffurfiol ydyw llawer iawn o'r parch sydd yn cael ei broffesu i Grist. Parch allanol ydyw.

Y mae llawer o ddynion yn dangos eu parch i'r Beibl trwy ei ddwyn i lysoedd barn, gwneuthur deddf-lyfr o hono, a'i ddarllen o flaen y barnwr a'r rheithwyr. Ond paham na wneir ef yn offerynol i ragflaenu y fath

weithredoedd ag sydd yn dwyn dynion yn gaeth dan sylw llysoedd barn? Paham na byddai dynion yn gwrando ar, ac yn dwyn ei wersi pur, nefol, a santaidd i ymarferiad? Pe gwnelid hyny, buan iawn y buasai drws y llŷs gwladol a'r carchar yn cael ei gau. Pe darllenai holl ddrwg-weithredwyr y ddaear y Beibl yn bwyllog, yn fanwl, a difrifol, a phe talent sylw dyladwy i'w gynghorion dwys, ei hyfforddiadau goleu, a'i gymhelliadau nefol at rinwedd a duwioldeb, ni fuasai galwad mwy am farnwyr a rheithwyr.

Nid yw Crist yn cael ei anrhydeddu trwy ryw barch ffurfiol a phoblogaidd. Nid yw yn gofyn y cyfryw barch; ond y mae yn gofyn i bob dyn yn unigol ei anrhydeddu yn y ffordd iawn, sef trwy gadw ei orchymynion ac anadlu ei ysbryd, trwy ei ganlyn trwy glod ac anghlod, trwy deimlo fel y teimlai ef dros ogoniant Duw a daioni dyn, ïe, mewn gair, trwy garu Duw a charu dyn.

Y mae dynion yn rhy fynych yn uno gyda'u gilydd i'w alw yn Arglwydd, a hyny oblegid fod yr arferiad yn boblogaidd.

Os yw parch i Iesu Grist yn arwynebol ac ansylweddol, os nad yw yn dyfod o'r galon, nis gall fod yn dderbyniol gan yr Hollwybodol Dduw. Yr oll ag y mae yr Iesu yn ymofyn yw, bod o honom yn gydweithwyr Duw o galon gydag ef. Aeth ef oddiamgylch fel dyn i ymofyn y trysor colledig. Aeth at y tlawd, y pechadur, a'r publican, ac ymdrechodd gael eu calonau; oblegid, pe caffai hyny, yr oedd yn ystyried ei fod wedi cyflawni gwaith yr hwn a'i danfonodd.

Nid proffes yn unig y mae efe yn ymofyn yn y dyddiau yma, ond y galon. Y mae am i ti a minau fod yn gydweithwyr â Duw fel ef ei hunan.

Dios fod llawer o ddynion yn meddwl yn awr mai pechod dychrynllyd oedd i Judas fradychu ei Arglwydd am ychydig arian; y mae pawb Cristionogion yn cyd-edrych ar y weithred fel un ysgeler, ac yn cyduno, megys âg un llais, i'w chondemnio. Ond, atolwg, pa gynifer sydd yn ei fradychu am lawer llai na hyny y dyddiau presenol! Dios fod miloedd lawer yn meddwl mai pechod ofnadwy oedd Pedr yn euog o hono, sef gwadu ei Arglwydd; ond, atolwg, pa gynifer sydd yn gwneuthur yr un peth yn union y dyddiau presenol, pan yn gwadu eu ffydd mewn manau lle y mae y ffydd hòno yn anmhoblogaidd, a phan yn gomedd ei hamddiffyn, ïe, mewn gair, pan yn ei gosod o'r neilldu yn llwyr yn yr amlwg! Y maent, mae'n wir, fel y clywsom gyfaill i ni yn dyweyd yn gyhoeddus ychydig fisoedd yn ol, "yn Drindodiaid yn y dydd, ac yn Undodiaid yn y nos." Beth ydyw hyn os nad bradychu Mab y dyn? Hefyd, pa mor aml y mae dynion yr oes hon yn meithrin yr un teimlad ag oedd y lluaws yn feithrin pan yn dywedyd, "Nid y dyn hwn ond Barabbas!"

Pa mor aml, anwyl ddarllenydd, ydwyt yn gwadu Crist yn dy ymddygiad! Yn mhob trafodaeth sydd yn troseddu ar athrawiaeth Crist, cofia a meddylia dy fod yn ei groeshoelio ef, ac yn agor ei glwyfau o newydd. Nid yw dy fod yn ei alw ef yn Arglwydd, Arglwydd, yn ateb un dyben da tu yma i ti gael dy gyfnewid i'r unrhyw ddelw ag yntau. Dyma'r modd y mae i ti a minau gael ein gwneuthur yn ddynion rhyddion yn ngwir ystyr y gair, hyny yw, yn rhydd oddiwrth bechod, a'n gwneuthur yn gyflawn o rinweddau Cristionogol. Dyma fuddugoliaeth sydd o werth i ddyn ymdrechu ei hennill.

Gwir yw fod llawer yn meddwl eu bod yn ennill buddugoliaethau canmoladwy ar faes y gwaed trwy rym a medrusrwydd corfforol, trwy

arferyd y cleddyf dur; ond buddugoliaethau hollol annheilwng o Gristionogion ydynt. "Ein harfau ni," medd Paul, "nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll o annuwioldeb i'r llawr." Nid oes y fath beth ag ennill buddugoliaeth dda a chanmoladwy yn y byd yma heb hunan-aberth—heb ymdrech egniol i wrthwynebu llawer o bethau ag ydynt yn gwrthryfela yn erbyn yspryd yr efengyl. Dyma'r fuddugoliaeth a ennillodd Crist Iesu yr Arglwydd; ac os ydym ninau am ddangos ein bod yn anrhydeddu Crist, rhaid yw i ninau ei hennill hefyd.

Y mae modd i ni gyd-gyfranogi â Christ o honi, ac yr ydym *yn* cyfranogi o honi pa bryd bynag yr ydym yn feddianol ar ei yspryd.

O! tydi ddyn eiddil, pan wyt yn cael dy amgylchynu gan dywyllwch, a phan mae dy ffydd yn Nuw ar ballu, dywed y pryd hyny, "'Pe lleddit fi, eto mi a ymddiriedaf ynot.' Credaf ynddo ef ac yn ei addewidion cysurlawn er mor dywyll ydyw arnaf yn bresenol, a byddaf foddlon i fy rhan; ac ar yr adeg hòno, pan megys yn codi o dywyllwch Gethsemane, yr wyt yn ennill buddugoliaeth debyg i'r hon a ennillodd yr Iesu pur.

O! tydi yr hwn wyt yn cael dy demtio, yn orthrymedig gan dreialon, a braidd yn cael dy orchfygu gan demtasiynau ar y foment, wrth gofio sut y gorchfygodd yr Iesu demtasiynau, a meddianu ei yspryd, gelli gydgyfranogi âg ef o'r fuddugoliaeth. Os wyt yn gryf a chadarn megys llew yn dy waith yn gwrthwynebu yr un drwg; os wyt yn penderfynu myned rhag dy flaen at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu, ti a deimli mai gwir a ddywedodd yr Athraw mawr yn y frawddeg yma, "Teyrnas nefoedd, o'ch mewn chwi y mae."

Yr anrhydedd mwyaf sylweddol am unrhyw ddaioni dynol yw yr hwn sydd yn dyfod oddiwrth y sawl sydd yn feddianol ar y daioni hwnw eu hunain. Er enghraifft, nid yw y crefftwr cywrain a gwir dda yn gofalu cymaint am foesgyfarchiadau y lluaws sydd yn eu rhoddi, âg eiddo canmoliaeth a chymeradwyaeth crefftwr da a chywrain arall, yr hwn sydd yn gwybod pa gymaint o drafferth y mae wedi gymeryd, a pha mor ddiwyd y mae yn rhwym o fod wedi bod. Nid yw y cerddor medrus yn gofalu cymaint am ganmoliaeth y lluaws ag yw am gymeradwyaeth rhyw gerddor medrus arall, yr hwn sydd yn gwybod am, a thrwy hyny yn canmol, yr hyn sydd ardderchog yn ei gyflawniad.

Felly y mae yr Iesu yn cael ei anrhydedd i'r graddau ag ydym ni yn cyfranogi o'i yspryd, neu ynte i'r graddau ag ydym yn gwybod yn ymarferol am ei ymdrech ef ac yr ennillwn yr un fuddugoliaeth ag yntau, i'r graddau hyny yr ydym yn eiddo iddo ef. Mewn gair, i'r graddau yr ydym yn dyfod yn debyg i'r Iesu, i'r graddau hyny yn union yr ydym yn ei anrhydeddu.

Y mae pob dyn sydd yn teimlo rhyw gymaint o'i yspryd hunanaberthol ef—y mae pawb sydd wedi dyoddef er mwyn cydwybod, ac wedi bod yn amyneddgar mewn tristwch, treialon, amheuaeth, ac ofn, yn gwybod rhywbeth am Iesu Grist mewn gwirionedd. Y mae pob dyn sydd yn pleidio ei achos gyda ffyddlondeb a dyfal-barhad yn ei anrhydeddu. Darfu i'r Apostolion a'r Cristionogion cyntefig ei anrhydeddu trwy anadlu ei yspryd—trwy fyned oddiamgylch ar eu neges o hedd i ddyddanu yr anniddanus a dwyn yr afradlon i dŷ ei dad.

Bydded i ninau, ddarllenwyr Yr Ymofynydd, ei anrhydeddu felly yn y dyddiau yma, fel ag y byddom yn awr, yn nydd gras ac yn nhymor iechydwriaeth, yr hyn ag y dymunem fod yn y dydd a ddaw.

Meddyliwn am y geiriau hyny o eiddo yr Iesu, sef, "Nid pob un a'r sydd yn dywedyd Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn *gwneuthur* ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." C.

RHYFELOEDD, A SON AM RYFELOEDD.

Dywedir fod y byd yn myned rhag ei flaen yn gyflym; ond y mae rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd y dyddiau presenol yn ddigon, braidd, i ddigaloni ffydd y mwyaf gobeithiol o ddynion. Yn lle beddwch gwelir fod tywallt gwaed; ac os dyma beth yw myned yn y bl[illegible] mae'r byd yn myned rhag ei flaen yn ei wrthol. Yn hanes yr hen a[illegible]ol oesau, ac yn yr amser presenol, ni welir braidd ddim ond cynddar[illegible]d ac ymrysonau yn difa gogoniant gwledydd; ni chlywir braidd ddim[illegible]d sŵn udgorn rhyfel yn diaspedain o deyrnas i deyrnas. Y mae hy[illegible] wirionedd dieithriad agos am bob rhan o'r byd. Y mae pobloed[illegible]af gwareiddiedig Ewrop, cenedloedd mwyaf barbaraidd y Dwyrain, ac [illegible] wariaid parthau pellenig y ddaear yn ddiwahaniaeth yma. Y mae ce[illegible]edloedd gwrteithiedig ac anwrteithiedig wedi dangos, ac yn parhau [illegible] ddangos yr un duedd i ladd a chigyddio eu gilydd; ac, fel mae gwaethaf y modd, ychydig mae Cristionogaeth wedi wneuthur i rwystro breninoedd trahaus a phenswyddogion nwydwyllt i yru eu hymrysonau i eithafoedd y mwsged a'r cleddyf. Nid yw hanes y byd, ar y cyfan, amgen na symudiadau byddinoedd rhyfelgar—hanes buddugoliaethau a gorchfygiadau ar faes brwydr. Yn ol yr hanesion boreuaf, ag sydd o un awdurdod, yr ydym yn cael fod ymherodraethau galluog yr Aipht, Assyria, Babilon, a Phersia, y naill ar ol y llall, mewn meddiant o'r *stage*, ac mewn rhyfel gwastadol â'u gilydd, neu â chenedloedd a fyddent wanach. Yr oedd pobl Judea, yn eu cylch bychan eu hunain, âg ynddynt gymaint o yspryd rhyfel, ac mor barod i ymladd â neb; ac y mae llyfrau yr Hen Destament yn adseinio gan drwst arfau. Y mae ein gwybodaeth yn llawer llai am yr ymherodraethau ëang a fodolent yn mhellach i'r Dwyrain, megys India, China, ac ereill; ond y mae genym bob rheswm i gredu mai'r milwr fynychaf oedd yn penderfynu dadleuon y dydd yno hefyd. Llywodraeth hen wlad Groeg gynt, yn addefedig felly, oedd yn sylfaenedig ar fath o gyfundrefn filwraidd, a'i bywyd a'i heffeithioldeb yn ymddibynu ar ryfel parhaus. Yr oedd y wlad yn rhanedig i amryw fân freniniaethau a gwerinlywodraethau, a thrwy hyny nid oedd y Groegiaid nemawr byth mewn diffyg cyfleusdra i ryfela, ac anaml byth yn ei esgeuluso. Yr amcan uwchaf mewn golwg gan awdurdodau Sparta oedd gwneuthur y dinasyddion yn filwyr da; ac er nad yw yn ymddangos mai dyma oedd yn gwbl felly y prif amcan yn nhaleithiau ereill Groeg, eto, gwyddys fod yr yspryd milwraidd yn cael ei feithrin, ac arferion milwraidd yn cael eu cefnogi i'r fath raddau, fel nad oes le i amheu nad oedd y pethau yma yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn brif ddybenion bywyd.

Yr hen philosophydd enwog hwnw, sef Plato, yn ei ddarfelydd o "Werinlywodraeth," oedd yn lled-ogwyddo at y cynllun Lacedemonaidd. Pan y gwnaeth Philip o Macedon, trwy ei gywreinrwydd a'i gyfrwysder, asio holl daleithiau Groeg yn un, daeth yn wlad ofnadwy o alluog; a than lywodraeth mab Philip, sef Alexander Fawr, ymosododd yn effeithiol

arswydus ar annibyniaeth gwledydd ereill. Alexander Fawr ydoedd Napoleon yr hen fyd, ac efe a ennynodd yn meddyliau ei bobl yr un uchelgais filwraidd ag a wnaeth Bonaparte y I. ei ddeffroi a'i ddigoni yn meddyliau y Ffrancod. Asia Leiaf, yr Aipht, Media, Syria, a Phersia, a syrthiasant dan rysgyr ei arfau, ac nid oedd hyd yn nod India a Scythia yn gwbl tu allan i gyrhaedd ysgubiad ei gleddyf. Wedi marwolaeth Alexander Fawr, ei raglawiaid a gymerasant iddynt eu hunain amrywiol deyrnasoedd allan o'r ymherodraeth anferthol hon, y rhai a redasant yrfa mor filwraidd ag a ellid ddysgwyl iddynt wneuthur, wrth ystyried natur eu dechreuad; ond yn nghwrs amser, cyfododd llywodraeth alluog yn yr Eidal, yr hon a ddygodd y gelfyddyd o ryfela a gorchfygu i'r radd uwchaf o berffeithrwydd yr ydys hyd yma wedi gyrhaeddyd. Rhufain, pa un bynag ai dan werinlywodraeth neu ymherodraeth, a barhaodd i oresgyn am lawer o ganrifoedd. Y deuddeg mlynedd o heddwch dros yr holl fyd oddeutu amser genedigaeth Crist oedd yn ffaith mor hynod, fel y gwnaethwyd wedi hyny ei hystyried yn gyfryngiad goruwchnaturiol, fel arwydd neu gysgod o ddynesiad y grefydd newydd. Ond yn fuan cafodd yr Ymherodraeth Rufeinig ddigon o waith i'w milwyr yn Ffrainc (Gaul yr amser hwnw), Germany, a Phrydain, yn gystal ag yn Asia. Y meddylddrych o un ymherodraeth gyffredinol dros yr holl fyd nis gellir ei weithio allan, hyd yn nod yn rhanol, heb dywallt afonydd lawer o waed; a llywodraeth y Cæsariaid oedd y sylweddoliad tebycaf o'r meddylddrych hwn a welodd y byd erioed. Y mae yn ymddangos, er hyny, fod rhyw ddymuniad gwirioneddol am heddwch w[illegible] wraidd y meddylddrych hwn: yr oedd yr holl fyd i fod yn dawel [illegible]yddianus mor gynted ag y byddai wedi derbyn cyfreithiau, mabwysiadu sefydliadau, a chydnabod goruchafiaeth y Ddinas Dragywyddol. Ac, mewn gwirionedd, teyrnasodd heddwch am amser hir iawn yn rhanau mwyaf mewnol tiriogaethau Rhufain, ond hyny, fel y mae yn deilwng i sylwi, ar gyfrif ei bod yn wastadol mewn rhyfel â'r barbariaid oeddent y tu allan, yn gystal ag âg ymherodraethau trechgeisiol Asia; ac mor gynted ag y daeth y barbariaid yn gryfach, Groeg a'r Eidal, ac hyd yn nod Rhufain ei hun, a deimlasant fod tònau buddugoliaeth yn treio ac yn gweithio yn eu herbyn. Yr Huniaid, y Gothiaid, a'r Vandaliaid, trwy eu mynych ryfeloedd, a wasgarasant ddifrod yn mhell ac yn agos, a chynydd a gwelliant oesau diweddaraf paganiaeth ac oesau boreuaf Cristionogaeth yn agos a ddifodwyd. Llawer tudalen waedlyd yn llyfr hanesyddiaeth a gyfranwyd gan ffyrnigrwydd diwala Alaric ac Atila, ac ereill o flaenoriaid y minteioedd gogleddol a dwyreiniol.

Yr oedd cwymp yr Ymherodraeth Rufeinig yn gyfamserol â chodiad un arall, yr hon hithau hefyd oedd yn seiliedig ar ddewrder milwraidd. Buddugoliaethau Mohammed a'i olafiaid, y Caliphs, a gadwasant y rhan fwyaf o Asia, rhanau o Affrica, a rhai o wledydd deheubarthol Ewrop mewn berw rhyfel am lawer o oesau. Buasai hyd yn nod Gogledd Ewrop wedi cael ei darostwng, oni buasai i ddewrder y Ffrancod yru y Saraceniaid yn ol tu hwnt i fynyddoedd y Pyrenees. Y pryd hwn hefyd yr oedd gorchestion milwraidd Haroun Al Raschid yn cael eu mantoli gan eiddo Charlemagne; ond yn sicr ni dderbyniodd achos heddwch fawr o gynorthwy oddiwrth yr arwr Mahometanaidd fwy na'r un Cristionogol. Ymsefydliad gwahanol genedloedd yn Ewrop, mewn amser diweddar, trwy ymrysonau parhaus y Celtiaid, y Gothiaid, a'r Scandi-

nafiaid—ni bu hyny ychwaith yn foddion i leihau rhyfel. Y Normaniaid eu hunain oeddent yn blino y Gogledd a'r Dehau âg ymladd diyspaid. Rhyfeloedd y Groes a wastraffasant waed goreu gwledydd crêd, a hyny mewn anturiaeth nad oedd, mewn gwirionedd, o ddim gwerth i'w gwneyd; a gwerinlywodraethau yr Eidal, yn y canoloesau, oeddent yn byw ar ryfela. Yn y cyfamser, Asia Ddwyreiniol oedd yn cael ei darostwng trwy'r cleddyf, yn gyntaf gan Zingis Khan, ac wedi hyny gan Timour, neu Tamerlane; ac y mae cynydd yr Ymherodraeth Dyrcaidd yn bennod hir, llawn trychineb a gwaed, yn hanes yr hîl ddynol.

Gyda chwymp Caercystenyn, ac ymgorffoliad Yspaen yn un llywodraeth, yr ydym yn ymylu ar faes hanesiaeth ddiweddar. Ni bu darganfyddiad America ond helaethiad maes rhyfel, heb fod o un esmwythder i'r hen fyd. Yr oedd Yspaen a Ffrainc bob yn ail yn fflangell i Ewrop. Y mae gan Philip II., a Louis XIV., oddeutu yr un hawl i'r anrhydedd a geisiasant trwy eu cyflawniadau galanasol. Yn Germany achoswyd difrod ac anghyfanedd-dra digyffelyb, braidd, gan y deng mlynedd ar hugain rhyfel, tua dechreu yr ail ganrif ar bymtheg. Y mae Gustavus Vasa, a Charles XII., wedi bod yn Sweden; yn Poland bu rhês o arwyr enwog yn cyrhaedd o ddyddiau Bolesilaus i lawr hyd at ddyddiau Sobieski, neu yn ddiweddarach; tra yn y de-ddwyrain y gwnaeth adfeiliad yr Ymherodraeth Ddwyreiniol roddi bodolaeth i amryw giwdodau rhyfelgar, bob amser yn ymladd â'u gilydd, neu â'r Twrc ymosodol. Cyfymrysonau Austria a Prussia, yn y ganrif ddiweddaf fel yn y ganrif hon, a daenasant erchylldod rhyfel dros lawer goror ffrwythlawn. Hanes Frederick Fawr, yr hwn y mae Carlyle yn ei edmygu gymaint, sydd yn llawn mwrdd-dra a gwaed; a dyrchafiad Muscovy dlawd i fod yn Russia Ymherodrol sydd wedi ychwanegu unbenaeth arall o faintioli anferthol i ymryson ac ymladd ar faes y byd. Pedr Fawr, yn wir, a adawodd i'w olynwyr gymynrodd o uchelgais, yr hon nid ydynt wedi ei hanghofio na'i hesgeuluso. Yn Ewrop ac Asia—yn y Gogledd, y Dê, a'r Dwyrain, y mae Ymherawdwyr Russia wedi cario fflam ddinystriol rhyfel; ac am gant a hanner o flynyddau, ychydig alluoedd sydd wedi llwyddo yn fwy na Russia i lanw gwledydd ereill âg yspryd eiddigedd, a'u gorfodi i wneuthur parotoadau i ryfel, yr hyn sydd nemawr llai niweidiol na rhyfel ei hunan. Yn y llechres yma o wledydd rhyfelgar y mae yn rhaid i ni enwi ein gwlad ein hunain, Prydain Fawr, yr hon sydd wedi gwastraffu llawer o'i gwaed a'i chyfoeth yn mhob parth o'r byd.

Ond y gwaethaf, yn ddiamheu, o'r rhyfeloedd diweddar oedd rhyfel Ffrainc yn "amser Bona.," fel y dywedir. Hen Doriaeth ddall a byddar y llywodraethau gynt, a hollol ddideimladrwydd Napoleon I., yr hwn ni wnai un cyfrif o'r trueni a ddygai ar ddynolryw lle y byddai brwydr i'w hymladd a'i hennill, a suddasant holl Ewrop unwaith drachefn yn ingoedd rhyfel parhaus. O'r diwedd, pan y cymerodd heddwch le yn y flwyddyn 1815, y mwyaf gobeithiol a feddylient fod y byd gwareiddiedig bellach wedi dysgu doethineb trwy brofiad, ac na byddai rhyfela byth mwyach. Yn y flwyddyn 1851, yn y Palas Gwydr yn Hyde Park, Llundain, cynaliwyd Gwyl Heddwch, fel yr oeddid yn tybied; ond ar ol hyny yr ydym wedi gweled rhyfel y Crimea, gwrthryfel yn India, llawer o gynhwrf yn China a Japan, rhyfel cartrefol yn America, ymosodiad ar Mexico, ymladd di-bendraw yn nhalcithiau deheuol America, ymrafael yn Denmark, cweryl rhwng Prussia ac Austria yn 1866, ac yn awr y

rhyfel dychrynllyd sydd newydd ddechreu rhwng Prussia a Ffrainc—rhyfel, os pery yn hir, mwy creulawn a dinystriol nag un rhyfel, braidd, a gofnodir ar dudalenau hanesyddiaeth. Sŵn rhyfel sydd i fynu ac i waered, draw ac yma, yn profi, braidd, mai creadur cwerylus ac ymladdgar yw dyn wrth naturiaeth, ac mai ofer yw gobeithio a dysgwyl am heddwch ar y ddaear. Sôn am y milflwyddiant! mae'r cyfnod hwnw mor annhebyg yn awr ag erioed. Y peth mwyaf gwangalonus yn y rhyfel presenol yw ei fod yn rhoi adfywiad i'r holl hen wrthuni anaele o ymladd er mwyn cadw "*balance of power*." Os rhyfela o gwbl, paham na baid yn rhyfela dros rywbeth o sylwedd ac o werth, dros rywbeth teilwng o ddynion ac o'u gwlad, dros ryddid a breiniau pobloedd, neu dros rywbeth arall o gyffelyb natur? Ymherawdwr Ffrainc a Brenin Prussia, eill dau ar fin y bedd, y naill wedi sarhau urddas y llall, ac er mwyn amddiffyn eu hanrhydedd (bwrlwm o beth) yn rhuthro yn wyllt i faes rhyfel i dywallt gwaed miloedd o feibion gwragedd, i wastraffu cyfoeth eu deiliaid, i ddystrywio masnach eu gwlad, a'i llanw â thlodi a gwae! Trist a thorcalonus iawn yw hyn, eto, gan fod gobeithion dynion yn anfarwol, yr ydym yn parhau i freuddwydio am lywodraethwyr heb gleddyfau a magnelau, ac am amseroedd dedwydd rywbryd yn mhell yn y dyfodol. D. N.

MR. SPURGEON AR Y RHYFEL.

Yn y *Sword and Trowel* am fis Awst y mae gan Mr. Spurgeon, dan yr enw John Ploughman, lythyr at "Napoleon, ymerawdwr y Ffrancod, a William, brenin Prwssia," o'r hwn yr ydym yn gwneuthur y dyfyniadau canlynol:—

"Mae hwn yn dod gan obeithio eich bod yn dod yn well, o leiaf, mewn gwell tymer at eich gilydd, er fy mod yn mawr ofni, fel mae'r dywediad, y byddwch yn waeth cyn y byddwch yn well. Yr wyf yn dymuno anfon i chwi fy *nghompliments* mwyaf anmharchus. Dywed yr Ysgrythyr, "Anrhydedd i'r hwn y mae anrhydedd yn ddyledus;" ond nid oes i freninoedd sydd yn myned i ryfel am ddim yn y byd ddim anrhydedd yn ddyledus. Ac felly nid wyf yn anfon i chwi gymaint a orweddai ar ewin eich bŷs bawd. Efallai nad ydych chwi ddim eich dau yn gyffelyb, ac mai dim ond un o honoch sydd i'w feio am ddechreu y frwydr ddychrynllyd bresenol; ond nid ydwyf fi yn gwybod eich ystrywiau dirgel, oblegid y mae breninoedd mor ddwfn a chadnöaid, a'r peth diogelaf yw ei osod arnoch eich dau, oblegid trwy hyny y mae yr un iawn yn sicr o'i gael. Caraswn roddi i chwi ddau fis yn ngweithdy'r tlodion, a phrawf o'r cranc, i ddwyn eich ysprydoedd balch i lawr ychydig, oherwydd yr wyf yn tybied mai eich byw uchel sydd wedi eich gwneuthur mor waedboeth. Yn enw pob peth, beth yr ydych yn ei weled mewn ymladd i beri i chwi fod mor ffyrnig am dano? Gallai dyn feddwl mai pâr o geiliogod ydych, ac heb wybod gwell. Pan y mae dau gi yn ymladd, y mae un o honynt yn bur sicr o ddyfod adref yn gloff, ac ni bydd un o honynt yn edrych yn well o hono. Caiff y naill neu'r llall o honoch gosfa; mi ddymunwn pe byddai yn dyfod ar eich cefnau noeth chwi, ac nid ar eich milwyr tlodion.

A oes un o honoch erioed wedi meddwl beth yw rhyfel? A welsoch

chwi ben dyn erioed wedi ei smashio, neu ei berfedd wedi eu rhwygo yn agored? Beth! pe buasech wedi eich gwneuthur o gig a gwaed, gwnelai golwg ar un dyn tlawd clwyfedig, a'r gwaed yn rhedeg allan o hono, i chwi deimlo yn glaf. Nid wyf fi ddim yn hoffi boddi câth fach; ac nis gallaf oddef hyd yn nod i weled llygoden yn marw, nac un creadur mewn poen. Ond dyn! pa le mae eich calonau os gallwch feddwl am gluniau toredig, esgyrn briwedig, penau wedi eu curo i mewn, ymenyddiau wedi eu chwythu allan, coluddion wedi eu rhwygo, calonau yn ffrydio â chrawn, ffosydd yn llawn gwaed, a chrugiau o aelodau a chelaneddau dynion cigyddiedig! A ydych yn dyweyd fod fy iaith yn gyfoglyd? Pa faint mwy cyfoglyd raid fod y pethau eu hunain? Ac yr ydych chwi yn gwneuthur y pethau hyny! Pa fodd y carech gael dyn i ddyfod i ardd eich palas, a rhedeg cyllell i'w goluddion, neu dòri ei wddf? Pe gwnaech hyny, haeddech gael eich crogi; ond ni byddai hanner cynddrwg â lladd degau o filoedd; ac yr ydych chwi yn gwybod o'r goreu mai dyna yr ydych chwi ar fin myned i'w wneuthur yn bresenol. A ydych yn dychymygu y bydd eich tabyrddau a'ch pibau canu, a'ch pluf, a'ch gwych-wisgoedd, a'ch pomp, yn peri fod eich llofruddiaethau *wholesale* ryw dipyn yn llai atgas yn ngolwg Duw? Na thwyllwch eich hunain, nid ydych chwi ddim gwell na'r torwyr gyddfau y mae eich cyfreithiau eich hunain yn eu condemnio; gwell! beth, yr ydych yn waeth, gan fod eich llofruddiaethau yn llawer. Ystyriwch, 'rwyf yn deisyf arnoch, am y bydd yn rhaid i'ch pobl druain ystyried, pa un a wnewch chwi neu beidio. A oes mor lleied o angen yn y byd fel y mae yn rhaid i chwi fyned a damsang ar y cynhauaf gyda'ch ceffylau a'ch dynion? A oes mor lleied o drueni yn y byd fel y mae yn rhaid i chwi wneuthur gweddwon wrth y miloedd? A ydyw angeu mor hen ac eiddil fel y mae yn rhaid i chwi hela ysglyfaeth, fel y dywedir fod y *Jackal* yn ei wneyd i'r llew? A ydych yn tybied fod Duw wedi gwneuthur dynion i chwi i gael chwareu milwyr â hwy? A fwriadwyd hwy yn unig i fod megys *toys* i chwi i'w tòri? Oh freninoedd, y mae *Ploughman* (aradr-wr) yn dywedyd wrthych fod eu heneidiau hwy mor werthfawr yn ngolwg Duw â'r eiddo chwithau; dyoddefant gymaint o boen pan fyddo peleni yn myned trwyddynt ag y gellwch chwi byth deimlo; mae ganddynt gartrefi, a mamau, a chwiorydd, a bydd eu marwolaeth hwy yn gymaint achos wylo â'r eiddo chwithau, feallai yn fwy. Pa fodd y gellwch eistedd i lawr a bwyta pan yr ydych wedi achosi rhyfel? Onid yw y gwaed yn codi yn eich gyddfau ac yn eich tagu? Neu ynte, ai cythreuliaid yn unig ydych â choronau ar eich penau? Creaduriaid na fuont yn sugno erioed wrth fronau benyw, ac felly heb feddu teimladau dynol? Bydd yn galed i chwi gofio am y gwaed a ollyngasoch pan fyddoch yn gorwedd i farw, a chaletach fyth i ddyoddef llaw drom Duw pan y bydd efe yn bwrw pawb llofruddion i uffern. Pa un bynag o honoch fu'r achos drwg o'r rhyfel hwn, yr wyf yn dywedyd wrthych fod arogl gwaed arnoch; dylech gael eich casâu yn fwy na'r *common hangman;* ac yn lle cael eich anerch fel "Eich Anrhydedd," dylech gael eich hwtian fel cythraul.

Yr ydych eich dau wedi gwneuthur areithiau doniol iawn, gan osod yr holl fai i bant oddiwrthych eich hunain, ond yr achos gwaethaf sydd yn gyffredin yn cael y dadleu goreu; oblegid y mae'r dynion na fedrant gerdded yn cymeryd at farchogaeth; ond gŵyr yr holl fyd na wna

dynion ymrysongar byth addef eu bod ar fai, ac ni wna eich geiriau chwithau ddim ond myned am yr hyn ydynt werth, ac nid yw hyny ddim yn llawer. Ymerawdwr a brenin, pwy ydych? Er bod y bobl fawrion yn gwenieithio i chwi, nid ydych ond dynion. Tosturiwch wrth eich cyd-ddynion. Peidiwch â'u tòri â'r cleddyf, eu rhwygo â'r bidog, eu chwythu yn ddarnau â'r magnelau, a'u gwneuthur yn rhidyll â'r mân-beleni. Pa les a wna i chwi? Pa beth mae'r trueiniaid wedi ei wneuthur i haeddu hyn oddiwrthych? Yr ydych yn ymladd am ogoniant, a ydych chwi? Sais â thafod plain ydwyf fi, ac yr wyf fi yn dywedyd wrthych mai'r Saesneg am Ogoniant yw *Damnation* (Damnedigaeth); a dyna fydd eich tynged chwi, O frenhinoedd! os ewch yn y blaen yn tòri a hacio eich cyd-ddynion. Stopiwch y rhyfel hwn, os gellwch, ar unwaith, a throwch at ryw orchwyl gwell na lladd dynion. Cyn y byddo melldithion dyfnion gweddwon ac amddifaid yn syrthio arnoch oddiwrth orsedd Duw, rhowch heibio eich cyllyll cigyddio *(butchers' knives)* a'ch dyn-laddwyr breintiedig *(patent men-killers)*, ac edifarhewch."

HORRIDA BELLA.

Y MAE tad Louis Napoleon, Ymerawdwr diweddar Ffrainc, yn un o'i lythyrau, yn ysgrifenu am ryfel gyda doethineb y buasai yn dda pe gallesid cael gan ei fab ei deimlo:—"Yr ydwyf wedi bod mor frwdfrydol a llawen â neb ar ol buddugoliaeth; ond yr wyf yn cyffesu fod hyd yn nod golwg ar faes brwydr nid yn unig wedi fy nharo â dychryn, ond hyd yn nod wedi fy nhroi yn glaf. Ac yn awr, pan yr wyf mewn gwth o oedran, nid wyf yn gallu deall, ddim mwy nag y gallaswn pan yn bymtheg oed, pa fodd y mae bodau a alwant eu hunain yn rhesymol, ac yn meddu cymaint o ragolwg, yn gallu defnyddio y bywyd byr presenol, nid mewn caru a chynorthwyo eu gilydd, a phasio trwyddo mor dawel ag sydd bosibl, ond, i'r gwrthwyneb, mewn ceisio dinystrio y naill y llall, fel pe na buasai amser yn gwneuthur hyny gyda chyflymdra digonol. Yr hyn yr oeddwn yn ei feddwl yn bymtheg oed yr wyf yn ei feddwl eto. Nid yw rhyfel, pa un y mae cymdeithas yn ei ddwyn arni ei hun, ond math o farbariaeth perffeithiedig *(organised barbarism)*, ac etifeddiaeth y cyflwr anwar, gan nad pa mor guddiedig ac addurnedig bynag y byddo."—"GWYN EU BYD Y TANGNEFEDDWYR."

YMWELIAD AG ABERAERON.

TREF fechan yw Aberaeron, yn cynwys rhywbeth tua mil o drigolion. Y mae'r dyffryn sydd yn rhedeg i waered iddi yn un o'r prydferthaf a welais erioed. Gall nad oes llawer o farddoniaeth, ond y mae llawer o wir, yn y rhigwm—

> "Mae dyffryn —— yn ddyffryn purion,
> Ond llawer gwell yw dyffryn Aeron."

Nid wyf yn synu fod y trigolion yn meddwl yn uchel am eu dyffryn; y mae ganddynt resymau da dros wneuthur hyny, heblaw y rheswm eu bod wedi eu geni ynddo. Y mae dydd fy mynediad i lawr yn un hapus iawn; diwrnod hyfryd yw; ac os oes rhyw anhwylder—rhyw ddolur

yn y pen, y cefn, y trwyn, neu y droed, neu ryw iselder yspryd diachos—yn sicr i chwi, barchus olygydd, nid oes angen gwell meddyginiaeth i'w yru ar ffo, neu, yr hyn sydd cystal, i beri i mi i'w anghofio, na'r olygfa bresenol. Sieryd rhai am *hot baths* neu'r *cold baths*, am yr *oxygen baths* neu'r *Turkish baths:* boed i bob un ei farn—boed i minau yr un hawl. Gwell yn bresenol yw'r ardal yma i mi. Ac yr wyf yn ei deimlo yn iechyd i'm calon i weled y bryniau yma ar bob llaw hyd y pen yn wisgedig â harddwch—dim copäau moelion—y dolydd ffrwythlawn yn emedig â blodau—pob llwyn a pherllan a pherth megys yn ei goreuwisg; a hithau yr Aeron fechan, fel cadwyn arian,

> "Gan ddysglaer droi o lan i lan,
> Yn murmur groesaw im'."

> "Mae meillion gwynion ugeiniau,—lliwdeg,
> Yn dilladu'r caeau;
> A gwisgir, paentir pob pau
> Fel Eden â heirdd flodau."

Ydyw, y mae'r olygfa yn hyfryd; ac, i gynorthwyo yr olygfa, y mae yfed awelon mor fwyn yn effeithio fel balm ar bibau fy hen organ, fel ag i beri i minau chwantu canu bellach; a chanu yn ddiau a wnaethwn oni b'ai y perygl i'r llais cryglyd a chrynedig beri taw ar y "mil o leisiau melusion," a pheri i'r ednod perleisiol ddiflanu i'w cuddfaoedd, ac i'r pysg ffoi dan y ceulanau. Siarad am *oxygen bath!* mae'r awelon rhwng bryniau Ceredigion yn cynwys *preparation of oxygen* mwy iachäol na dim a geir yn Bryste; a gwnelai cerdded o Lanbedr i Aberaeron ar ddiwrnod fel heddyw roddi cystal chwysiad i ddyn âg eisieu chwysu arno ag un *Turkish bath* yn y byd.

Ond dyna, dyma fi heb gerdded dim yn ngolwg y môr—yn ngolwg cae mawr pori Dafydd Jones. Rhyfedd! Pa le mae defaid Dafydd Jones heddyw? Nid oes yr un yn y golwg. A ydyw yn bosibl eu bod oll wedi myned i lawr i'r seler i ymguddio rhag y gwres? Mae'r olwg ar y môr, fel y mae yn awr, yn hyfryd iawn—yn dawel, yn wastad-lyfn; ac yn awr, wedi dyfod i'w lan, y mae'r olwg yn fwy swynol fyth arno. Gellid meddwl wrth ei wynebpryd na wnaeth gam â neb erioed. Ni freuddwydiai neb byth wrth yr olwg sydd yn bresenol arno, fod yna ddim sydd yn dwyllodrus, na dim ond y diniweidrwydd mwyaf pur. Nid oes yma ddim olion presenoldeb cydwybod euog o ddifrod a galanasdra. Y mae mor deg a mwyn â gwynebpryd y gwr rhagrithiol; ac, fel y gwr rhagrithiol hefyd, y mae'n meddu dau wyneb—dau wyneb â chymaint o wahaniaeth rhyngddynt ag a ddywedir fod rhwng ystoriau mab a merch "cyn priodi" a'r hystoriau "wedi priodi." Ni feddyliai neb wrth olwg bresenol y môr fod y darluniad canlynol wedi bod erioed yn un cywir:—

> "Crychferwai, ymrwygai y mawr eigion,
> Ewynai 'i aflonydd dònau 'n flinion;
> Unwedd â 'mwriawl fynyddau mawrion,
> Och! oedd ei grothawg, fawrchwydd hagr, weithion;
> Ymluchiai, taflai pob tòn—hyd y sêr,
> Yn eu gorwyllter eu dagrau heilltion.

Nid oes yr un argoel yn bresenol y ceir

> "Gwel'd ar y deifr y geifr gwyn,
> A'i frig fwrig fyheryn."

Ond er ei holl dawelwch presenol,—

"Wedi hir hwylio, coda'r awelon,
Fry o'u cysgfanau a'u cellau gwyllion;
Sïant, sibrydant megys ysbrydion
A fuont unwaith mewn gefyn tynion."

Ac yna, wedi ychydigyn, mae'r newid yn dyfod, ac

"Ymwriaw mae'r môr mawrwyllt,
Mewn bâr, yn ei garchar gwyllt."

Nid yw yn gwbl iawn ar lan y môr heb fod gan un gydymaith; a goreu i gyd os bydd yn agos i'r un oedran ac o'r un chwaeth. Y mae profiad pob oes yn dangos gwerth y gorchymyn yn erbyn "ieuo yn anghymharus." Bûm i yn bur lwcus; ni fûm i yno nemawr o oriau cyn cael un yn ateb hyd drwch y blewyn; un fel fy hun yn dwyn nodau oedran, ac, fel fy hun, i raddau, â'i chwaeth yn yr un cyfeiriad; un yn hoffi teithio yn araf, ac yn casâu Sion-holwr gymaint ag y mae cyfaill i mi yn casâu brenin Prwssia; un yn caru hynafiaethau ac yn caru natur; yn caru môr ac yn caru mynydd, ond yn casâu twyll a hoced, a ffug-grefydd dynion sydd yn myned i'r cwrdd ar y Sul, ac yn "sprotian" ymenyn, siwgr, a thê, ddyddiau yr wythnos; un yn hoffi dyn gonest, caredig, gwyneb-agored, ond yn elyn anghymodlawn i'r dyn *sly*, y dyn dan-law, y dyn athrodgar; un yn gosod mwy o bwys ar ymarweddiad crefyddol nag ar dafod crefyddol. Felly, dyna ni ein dau gerbron, barned y darllenydd ni bellach, a gwylied ni yn ystod ein arosiad ar lan y môr. Fel y ni, felly ereill,—

"Bawb un ddull, myn'd bob yn ddau,
Hyd lenydd pysgodlynau;
A sylwi ar risialwawr
Gloewddwfr glân, a'i wiwlan wawr;
Dwr, o'i yfed, yr afiach,
Gwan ei wedd, a ddwg yn iach:—
Lle mae'r pysg yn cymysg wau,
Mor lon, mewn amryw luniau."

* * * *

"Pa beth ydyw nifer ei aml bysg-rywiau,
Nifer ei laswellt a'i enfawr lysiau,
Welwn hyd ei ymylau—ar ddamwain,
Yn wyrddion, byw-lydain, heb wraidd na blodau?
A rhi' ei geinion ryfedd gragenau?
Ymholaf, a gwelaf ail Feibl golau
O'm blaen yn agor ei ddwfn drysorau;
Oh Dduw! e lanwaist ei holl ddalenau!
Anadl ni ddaw o'm genau,—wyf, Oh Iôr,
Ry egwan i agor llyfr y gwanegau!"

* * * *

"Rhyfedd! y môr mawr hefyd,
Wahana 'n bell ranau 'n byd!"

Gwir mai rhyfedd yw pob peth, a bod rhyfeddodau yn mhob man. Ië, rhyfedd y môr; rhyfedd ei drai a'i lanw, ei dònau ansefydlog, ei helltni anghyfnewidiol, a'i symudiad parhaus. Ië, mae'r môr yn symud yn barhaus, yn raddol yn tòri i mewn i rai lleoedd, ac yn gadael lleoedd

ereill. Nid oes fan trwy'r byd nad ydyw wedi ei fynych olchi gan ei dònau,

"Yn y graig, mewn oerni a gwrês,
Haenau wedant ei hanes."

"Astudiwch y gwastadedd,—ewch eilwaith,
A chwiliwch y llechwedd:
A oes craig nas caria wedd
Hen dònau yn ei dannedd?"

"Ac îs y graig, a oes grô
Tanodd nad yw'n cytuno?"

Dyfod i mewn y mae'r môr yn Aberaeron, a hyny yn gyflym iawn. Gall llawer un yno ddywedyd fod màn eu geni gannoedd o latheni draw dan dònau y môr. Y mae llawer o dai wedi eu golchi ymaith yn ystod y deng mlynedd diweddaf; ac, wrth bob argoelion presenol, nid aiff deng mlynedd ereill ddim heibio cyn y bydd Aberaeron wedi ei rhifo at y can tref ereill *a ddywedir fod* ar waelod y *Cardigan Bay* oddiar y pummed canrif, pan y darfu i Seithenyn Feddw ab Seithyn Saide, brenin Dyfed, ollwng "yn ei ddiawd y môr dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yno, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bymtheg yn oreuon ar holl ddinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerlleon ar Wysg; a chyfoeth Gwydnaw Garanhir, brenin Ceredigiawn, ydoedd Cantre'r Gwaelod; ac yn amser Emrys Wledig y bu hyny; a'r gwyr a ddianghasant rhag y bawdd hyny a diriasant yn Arddudwy, a gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd nad oeddent gyfannedd cyn no hyny."

Tybir fod Sarn Badrig yn un o ffiniau Cantre'r Gwaelod. Heblaw hon, dywedir fod olion pedair sarn (heol) arall yn weledig yn amser trai yn y cantref yma,—Sarn y Bwch, Sarn Cynfelyn, Sarn Ddewi, a Sarn Cadwgan. Y mae'r ddwy olaf yn ymyl Aberaeron. Ger llaw yr olaf y mae hen amddiffynfa yn dwyn yr enw Castell Cadwgan; y mae rhan o hono wedi ei olchi ymaith gan y môr yn ystod y ganrif ddiweddaf. Codwyd ef tua'r 12fed ganrif gan Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Ceredigion. Y mae dwy fferm ar bwys o'r enw Cilgwyan-fawr a Cilgwyan-fach. Teithiodd fy nghyfaill a minau y ffordd yma lawer gwaith, a buom yn chwilio yr hen gaer, ond dim a gawsom, oddieithr bwyd i ddychymyg. Un diwrnod, pan allan yn y cyfeiriad yma, cyfarfuasom â dyn yn cario baich—nid dyn y lleuad oedd, yr oedd ei faich yn llai. Yr oedd yn ddyn pur *intelligent* yr olwg arno; ond gan i ni gael *long chat* âg ef, cawsom allan nad oedd efe ddim heb fod yn gwybod hyny. Yr oedd yn eithaf holwr, ac yn foddlawn gweithio ar yr egwyddor o *give and take*. Adroddai yn helaeth ffaeleddau ei gymydogion, a cheisiai ein harwain ni i gredu ei fod ef ei hun yn bur rhydd o ffaeleddau. Edrychai yn siomedig am nad oedd genym ni ffug-enwau; a dywedodd yn *right sober* wrthym "nad oes bedd un dyn byw yn mynwent Hen Fynyw," ac awgrymodd y gallasem fyned yno a gweled—nad oedd yn mhell. Yr oedd yn ein bwriad i fyned, ond nid gyda dysgwyliad i weled *bedd dyn byw*. Cododd y brawd hwn ei faich i fynu; ac wedi dymuno dydd da, cychwynodd i'w ffordd. Gwnaf finau gymeryd yr *hint* yn bresenol, a therfynaf, gyda rhoddi dymuniad da i chwithau a'ch darllenwyr, ac addaw anfon y gweddill i chwi, os ceir hwn yn dderbyniol, erbyn y rhifyn nesaf.

PEREERIN.

CAIN YR YMNEILLDUWR CYNTAF.

Yn Madron, gerllaw Penzance, Cornwall, y mae *Curate* o'r enw J. Perry. Fel cannoedd, coledda y gwr parchedig hwn farn lled gul am yr Undodiaid. Dywedir iddo ryw amser yn ol wrthod cymun yn ei eglwys i un o'r enwad, ac i'w esgob—Esgob Temple, ei alw i gyfrif am hyny. Beth oedd busnes yr Undodwr fyned i'r Eglwys Sefydledig i ymofyn cymun, nis gwyddom. Nid oes rhyw barch mawr gan y parchedigyn o Madron ychwaith i'r Ymneillduwyr yn gyffredin, ac ymddengys ei fod wedi bod mor gywraint â chael allan mai Cain oedd yr ymneillduwr cyntaf erioed. Ni wyddem ni ddim fod ymneillduaeth mor hen. Dynion a wnant ddatguddiadau nid ydynt yn eu cadw iddynt eu hunain yn hir, ac felly gwnaeth Mr. Perry ei ddatguddiad yn wybodus i'w gynulleidfa mewn pregeth ychydig yn ol, yn yr hon y dywedodd mai "Cain oedd yr ymneillduwr cyntaf, yr hwn a drôdd allan yn fwrddwr a chrwydryn, a'i fod yn gysgod *(type)* o bawb ymneillduwyr yn mhob oes ddyfodol." Y mae yn debyg fod yr Undodwr yn un o'r gwrandawyr ar y pryd, ac iddo ei hystyried yn ddyledswydd arno wneyd datguddiad y gwr parchedig yn wybodus i'r cyhoedd, yr hyn a wnaeth drwy gyfrwng y *Cornish Telegraph.* Yn ganlynol, darfu i Mr. Perry o hono yntau, rhag ofn y buasai i'w ddatguddiad roddi tramgwydd i'r Wesleyaid—corff lluosog a dylanwadol yn Cornwall—ysgrifenu i'r *Cornish Telegraph*, i ddyweyd i'r Undodwr wneyd camsyniad, ac nad cysgod o'r ymneillduwyr yn gyffredin ddywedodd ef oedd Cain, ond yn unig cysgod o'r "Undodiaid, a phawb o'r fath." Ond i wrthbrofi hyn, ac i ddangos fod y datguddiad yn llawer helaethach, cynygodd yr Undodwr ddwyn yn mlaen o leiaf ddwsin ereill o'r gwrandawyr i gadarnhau mai "cysgod o'r ymneillduwyr" ddywedodd y gwr parchedig oedd Cain, ac nid "o'r Undodiaid, a phawb o'r fath." O lythyr rhagorol yr Undodwr yn y *Cornish Telegraph* dyfynwn y canlynol, i ddangos mor gryf mae'r brawd yn gweinyddu y pastwn ar gefn y gŵr parchedig:—

"A chymeryd haeriad Mr. Perry ei hunan o'r hyn a sylwodd yn ei bregeth am Cain, anhawdd yw ei ryddhau o fwriad atgas yn ei gyfeiriad at Cain mewn cysylltiad â'r ymneillduwyr. Pe dywedai gweinidog ymneillduol, 'Y deuddeg Apostol oeddynt yr esgobion cyntaf; trôdd un o honynt allan yn lleidr, yn fradychwr, ac yn hunanleiddiad, ac y mae yn gysgod o bawb esgobion yn mhob oes ddyfodol;' cyfeiriad at ffeithiau diamheuol mewn hanesiaeth ni ryddhäai y fath weinidog o'r cyhuddiad o wneyd yn wirfoddol ledsèn atgas yn erbyn esgobion. Ond pa fodd bynag, hòna Mr. Perry na feddyliodd efe ddyweyd fod Cain yn gysgod o *bawb* ymneillduwyr, ond yn unig o'r 'Undodiaid a phawb o'r fath.' Ar ei addefiad ef ei hun, gan hyny, bwriadodd ddyweyd fod Cain, yr hwn oedd fwrddwr a chrwydryn, yn gysgod o'r 'Undodiaid a phawb o'r fath.' Paham y cyfeiriodd at y ffaith hanesiol am Cain, os nid i ledsèni cymhariaeth atgas rhyngddo fel mwrddwr a chrwydryn â'r Undodiaid?

Nid dyma y lle, ac nid y fi yw y person, i arholi neu amddiffyn duwinyddiaeth Undodaidd; ond beth bynag yw syniadau neu gyfeiliornadau yr Undodiaid, yn gyffredinol neu yn bersonol, gyda golwg ar natur aberthawl marwolaeth Crist, a chysylltiad ei farwolaeth â maddeuant pechod, er mwyn hynawsedd Cristionogol, rhyddid crefyddol, a'n hawl fel Protestaniaid i Feibl rhydd ac agored, ac i hawl pob dyn i'w ddeongli, rhaid i mi geisio lle genych i wrthdystiad byr yn erbyn rhyfyg Mr. Perry yn ei waith yn hòni mai 'Ymneillduwyr o'r ffordd ag y mae Duw wedi drefnu i ni ddynesu tuag ato' yw yr Undodiaid, neu unrhyw enwad Cristionogol arall, neu bersonau, am eu bod yn deongli yr ysgrythyrau ac yn edrych ar ffordd iachawdwriaeth mewn goleu gwahanol i Mr. Perry.

I ddefnyddio geiriau duwinydd godidog, 'Na fydded i ni anghofio mai yr ymdrech sydd yn bresenol nid rhwng yr Apostolion eu hunain â dynion a wrthwynebant eu

haddysgiadau adnabyddus, ond rhwng Cristionogion diysprydoliaeth (*uninspired*) ag ydynt, y naill fel y llall, yn derbyn yr Apostolion fel dysgawdwyr awdurdodol yr efengyl, ond yn amrywio yn eu barn yn nghylch rhai pethau a ysgrifenasant.'

Gan mai felly y mae, pwy sydd i benderfynu beth yw y ffordd trwy yr hon 'y mae Duw wedi trefnu i ni ddynesu tuag ato?' Ymddibyna hyny, i raddau, ar y synwyr a briodolir i rai manau yn yr ysgrythyr ag y mae gwahanol feddyliau yn eu cylch. Deongla Mr. Perry yr ysgrythyr yn ei ffordd ef, a'r 'Undodiaid a phawb o'r fath' (defnyddio wyf eiriadaeth dlws Mr. Perry) yn eu ffordd hwythau. Wrth basio, sylwaf fod Dr. Temple yn un arall 'o'r fath,' os têg yw barnu oddiwrth ei bregethau yn Rugby. Ond gan nad beth am hyny, gofynaf pa le y mae gwir feddwl yr ysgrythyr i'w gael? Mae y geiriau yn y Beibl, mae yn wir, a derbynir hwy gan yr 'Undodiaid a phawb o'r fath' ddim llai na chan Mr. Perry, ond arwyddion allanol o'r synwyr yw y geiriau, sef y synwyr oedd yn meddyliau yr awdwyr pan ysgrifenasant. Yn awr, mae cael gafael ar feddwl yr ysgrifenwyr yn ymddibynu ar fod y geiriau a ddefnyddiant yn dynodi eu meddwl hwynt yn gymhwys, a'n bod ninau yn deall y geiriau yn gymhwys fel y deallai yr Apostolion hwynt. Ond anfynych iawn y cymer hyn le, oherwydd llawer o bethau, ac un o honynt yw anmherfeithrwydd iaith fel cyfrwng y meddwl. O ganlyniad, mae gwybod meddwl awdwr yn gymhwys, wedi iddo farw, fel yr oedd y meddwl ganddo ei hun pan yn ysgrifenu, yn beth anhawdd iawn, os nid weithiau yn anmhosibl. Am hyny mae meddwl Ioan a Luc, Pedr a Paul, pan yr ysgrifenasant, yn *gymhwys* fel yr oedd yn eu deall hwy, fynychaf allan o'n cyrhaedd ni yn awr. Yna meddwl yr ysgrythyr yw y meddwl a briodolwn ni i'r geiriau sydd ynddynt, pa un ai meddwl yr awdwr fyddo ai peidio; a phan y mae Mr. Perry yn awgrymu fod pob dyn na ddealla yr ysgrythyrau fel y dealla efe hwynt yn 'ymneillduwyr oddiwrth y ffordd mae Duw wedi drefnu i ni ddynesu tuag ato,' mae yn dywedyd, mewn ystyr, fod pob dyn yn golledig nad yw yn deall yr ysgrythyrau yn gymhwys fel y mae efe yn eu deall hwynt. Meddylier fod chwech dyn yn darllen yr ysgrythyrau, ac yn amrywio yn nghylch eu meddwl, a bod Mr. Perry yn un o'r chwech. Pa hawl, gofynaf, sydd ganddo ef i ddyweyd mai ei feddwl ef yn unig sydd iawn, ac fod y pump arall yn cyfeiliorni?

Gellir cynwys y peth mewn ychydig eiriau. (1) Yr oedd rhyw feddwl gan ysgrifenwyr y Beibl. (2) Maent yn defnyddio geiriau i ddynodi eu meddwl. (3) Mae iaith yn gyfrwng mor anmherffaith i ddynodi yn gymhwys y peth a feddylia yr awdwr, fel y mae chwech o ddarllenwyr yn anghytuno yn nghylch yr hyn a ysgrifenwyd. Meddwl yr awdwyr yn unig sydd wir. Yn awr, hôna Mr. Perry mai efe sydd yn iawn gyda golwg ar y meddwl hwnw, ac fod y pump arall yn cyfeiliorni. Beth feddyliwn am hyn? Oni ddylasai y Cyngor Pabaidd, yn Rhufain, ranu anffaeledigrwydd rhwng Pius IX. â Mr. Perry, *Curate* Madron?"

Pe trinid fel hyn yn fwy mynych offeiriaid a phregethwyr a wnant haeriadau ffol a disail yn nghylch Undodiaid, byddent yn fwy ar eu gwyliadwriaeth; ond yn lle hyny, gadewir iddynt ddyweyd beth a fynont, a'r canlyniad yw, eu bod mewn llawer man yn lled haerllug. Da genym wybod fod un yn Penzance a Madron all daclu Mr. Perry a'i fath, a'u cadw dipyn mewn trefn.

CYFFES FFYDD UNDODAIDD.

Yn Eglwys y Messiah yn New York mae y gweinidog a'r gynulleidfa wedi gosod i fynu y gyffes ganlynol lle y gall pawb ei darllen:—

"Yn ngwyneb gwahanol syniadau crefyddol yr oes a'r wlad, ac i'r dyben i hyrwyddo llwyddiant gwirionedd a chyfiawnder yn y byd, ystyriwn yn ddyledswydd ar bob enwad o ddysgyblion Cristionogol a gydgynullant i gynorthwyo eu gilydd i wasanaethu Duw a gwaredu eu cyd-ddynion o afael pechod, i osod allan fynegiad o'n prif syniadau crefyddol. Yr ydym ni, gan hyny, yr Undodiaid, yn ystyried y canlynol yn arosodiad têg o'n ffydd, ac yn ei osod o flaen crefyddwyr er mwyn eu cymeradwyaeth. Pell ydym o chwennychu cyfyngu rhyddid meddwl

ac ymchwiliad crefyddol, nac ychwaith i neb feddwl fod yr arosodiad hwn yn ammod o aelodaeth eglwysig genym. Credwn fod nifer fawr a chynyddol tu allan i gylch ein heglwys ag ydynt yn barod i dderbyn y fath arosodiad â'r un canlynol fel ar y cyfan yn cynwys prif egwyddorion Efengyl Crist.

Duw.

"Yr ydym yn credu yn unoliaeth diranedig y Duwdod, ac am hyny yn gwrthod athrawiaeth y Drindod fel un o lygreddau mwyaf y grefydd Gristionogol. "Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw." Efe yn unig yw Creawdwr, Llywodraethwr, Cynaliwr, a Threfnwr pob peth; anfeidrol yn ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni. Ein Tad ydyw, yn ein caru ac yn gofalu am danom â'i ragluniaeth neillduol, yr hon sydd yn wastadol yn ein hamgylchynu. Efe yw unig wrthddrych ein haddoliad. Yr ydym yn ei garu â'n holl galon, ac yn ceisio ufuddhau i'w ewyllys. Dyma brif sylfaen ein ffydd ni.

Datguddiad.

"Yr ydym yn credu fod Duw yn datguddio ei hun i ddynion yn ei weithredoedd, yn yr Ysgrythyrau Santaidd, yn nghwrs ei ragluniaeth, ac yn nghalon a chydwybod pob dyn byw. Y Beibl, yr hwn a gynwys goffadwriaeth o'r 'gyfraith trwy Moses,' ac o'r 'gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist,' sydd ddatguddiad rhyfeddol o gymeriad ac ewyllys Duw. Y mae y gwirioneddau a gynwys yn rheol ffydd ac ymarferiad ag sy ddigonol i iachawdwriaeth. Yn mhob peth ysprydol, hanfodol i iachawdwriaeth, credwn fod y Beibl yn ysprydoledig, ond nad yw yn hawlio awdurdod mewn hanesiaeth, celfyddyd, a gwybodaethau cyffredinol.

Iesu Grist.

"Yr ydym yn credu fod Iesu Grist yr hyn a broffesa ei fod, a pheth mae yr Ysgrythyrau yn wastad yn datgan ei fod, sef Mab Duw, Mab y dyn, ein Hathraw a'n Harglwydd, y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y Dysgawdwr a lefarodd fel na lefarodd neb arall, y Siampl perffaith, Pen yr eglwys, ac Iachawdwr y byd. Er yn derbyn y datganiad a wnaeth, 'Mae fy Nhad yn fwy na myfi,' credwn er hyny iddo amlygu yn ei berson ei hun berffeithderau moesol y Duwdod i'r fath raddau, fel y gallasai gyda phriodolder ddyweyd, 'Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad.' Credwn gyda'r Apostol fod yr Iesu yn 'ddelw y Duw anweledig.'

Iachawdwriaeth.

"Yr ydym yn credu fod iachawdwriaeth, sef gwaredigaeth oddiwrth effeithiau dinystriol pechod, yn gynwysedig mewn uniondeb moesol ac ysprydol, a'i bod yn deilliaw o edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd yn Iesu Grist fel y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd. Nid angeu Crist yn unig sydd yn ein cymodi ni â Duw, ond hefyd ei eiriau, ei weithredoedd, ei lafur, a'i ddyoddefaint. Y maent yn addas, ac wedi eu darparu gan Dduw i'n cymhell ni i edifeirwch, cariad, purdeb calon, ac ufudd-dod. Dyma fel y cymodir ni â'r Tad, a'r Tad â ninau. Credwn fod iachawdwriaeth yn gynwysedig nid mewn credu rhyw athrawiaethau, ac ymroddiad i ffurfiau crefyddol, ond mewn cyfiawnder personol, ac ysprydol Cristionogaidd. Yr ydym yn cael ein gwaredu oddiwrth ddrwg pechod

yn unig mor belled ag y mae ein natur yn cael ei santeiddio. 'Y pur o galon a welant Dduw.'

Yr Yspryd Glan.

"Yr ydym yn credu yn yr Yspryd Glân, nid fel person o'r Drindod, ond y nerth Dwyfol yn gweithredu trwy Grist a'r Apostolion, ac yn eu galluogi i wneuthur gwyrthiau i brofi dwyfoldeb eu danfoniad, ac i gyffroi sylw y byd at eu cenadwri nefol; hefyd fel dylanwad yn deilliaw oddiwrth Dduw i oleuo, i nerthu, ac i santeiddio calonau dynion. Credwn nad yw neb yn hollol amddifad o'r dylanwad nefol hwn, a'i fod yn cael ei gynyg yn rhad i bawb, ac yn ol y difrifoldeb y mae neb yn gofyn ac yn meithrin yr Yspryd Glân yn eu calonau, y maent yn cyfranogi o'r ddwyfol anian.

Dyn.

"Yr ydym yn credu mai gwaith ardderchocaf Duw yw dyn, ac fod ei natur, gan hyny, nid yn wreiddiol ddrwg ond yn wreiddiol dda. Medda allu i droseddu cyfraith Duw yn gystal ag i ufuddhau iddi. Arweinir ef yn fynych gan ei nwydau a themtiasiynau i gamddefnyddio ei alluoedd moesol, i grwydro oddiwrth lwybr dyledswydd, ac i lygru y natur y mae Duw wedi roddi iddo. Nid oes un pechod yn wreiddiol mewn dyn ond mor belled ag y mae pwerau gwreiddiol ei enaid yn cael eu llygru gan arferion drwg. Duw yw awdwr y natur ddynol, yr hwn sydd dda yn ei holl weithredoedd.

Yr Eglwys.

"Yr ydym yn credu fod Eglwys Crist yn gynwysedig o bawb sydd yn arddel Crist, ac ar galonau pa rai y mae ei yspryd yn dylanwadu, ni waeth i ba genedl nac enwad y byddont yn perthyn.

Byd Arall.

"Yr ydym yn credu, yn olaf, mewn bywyd ar ol y bywyd hwn, ac y bydd ein buchedd yn y bywyd yma yn dylanwadu ar ein dedwyddwch yn y bywyd tragwyddol. Yr ydym yn credu, gan hyny, yn adnewyddiad bywyd a dydd barn, pryd y bydd i bob dyn gael derbyn o ffrwyth ei weithredoedd, pa un ai da ai drwg fyddont wedi bod yn y bywyd hwn. Yr ydym yn credu y bydd i ni gael ailgyfarfod mewn bywyd gwell â'r sawl y bu yn dda genym am danynt yn 'y fuchedd hon, ac na fydd yn rhaid ymadael mwy!"

Dyma, yn fyr, yw ein ffydd ni, yr Undodiaid; ac yr ydym yn gadael i ti, ddarllenydd, farnu pa mor gyson neu anghyson yw â chrefydd y Testament Newydd.

UNDOD DUW.

(*Cyfansoddedig 50ain mlynedd yn ol, meddai Talhaiarn.*)

Nid y Drindod ond Iôr Unduw—ddaliaf
Rhag addoli triduw:
Y clod na ddod i au dduw,
Landdyn, na wna eilundduw.

Drwy iawnder nid oes i'r Drindod—un sail
Yn sylwedd y Duwdod;
Un heb ail yw Iôn, un Bôd—
Duw enfawr diwahanfod.—Ieuan Awst, Dolgellau.

ZADKIEL A'I ALMANAC.

Dyma y ddeugeinfed flwyddyn i almanac rhyfedd Zadkiel wneuthur ei ymddangosiad; a dywed yr awdwr yn ei ragymadrodd fod ei gylchrediad wedi cyrhaeddyd dros bedwar ugain mil.

Mae yr almanac hwn yn rhyfedd mewn mwy nag un ystyr. Mae yn debyg i'r tân a welodd Bunyan, yr hwn a losgai gryfach gryfach pa fwyaf o ddwfr a deflid arno. Felly y mae almanac Zadkiel yn myned gryfach gryfach pa fwyaf o ddyfroedd cnllib a gwawd a deflir arno gan athronwyr, offeiriaid, pregethwyr, &c. Mae hyn yn rhyfedd ar yr olwg gyntaf; eto, nid mor rhyfedd erbyn edrych. Gwelodd Bunyan rywun y tu cefn yn tywallt olew i borthi y tân. Felly y mae yr holl filoedd derbynwyr yn tywallt eu chwecheiniogau i borthi tân athrylith y sêr-ddewin. Y mae rheswm arall dros lwyddiant mawr Zadkiel a'i almanac. Y mae dynion dysgedig Lloegr yn cymeryd arnynt edrych i lawr ar Zadkiel a'i waith fel pethau annheilwng iddynt hwy wneuthur sylw difrifol o honynt; er hyny ânt i waelodion budraf pyllau llaca gwaddodion iaith i chwilio am enwau câs er mwyn eu cymhwyso ato ef a'i almanac, ac at sêr-frudiaeth. Galwant y dyn yn *impostor*, *scoundrel*, *scamp*, &c.; a galwant ei flwyddiadur yn *rubbish*, *trash*, *notorious jumble*, &c.; a dysgwyliant i holl filoedd darllenwyr yr almanac gymeryd eu darbwyllo trwy y fath ddifriaeth i beidio credu un gair a ysgrifena y daroganydd. Yn lle hyny y mae llawer o'r rhai oeddynt o'r blaen yn cyfrif sêr-frudiaeth yn ffiloreg, wedi dyfod bob yn dipyn i gredu y rhaid fod rhywbeth yn yr hyn a ddywed sêr-ddewinion, onidê y caem rywbeth gwell i'w gwrthwynebu.

Dywed athronwyr wrthym, a dysgir ein plant yn yr ysgolion i gredu, fod o 92,000,000 i 95,000,000, sef o bedwar ugain a deuddeg i bedwar ugain a phymtheg o filiynau o filldiroedd rhwng ein dacar ni a'r haul; ond dywed Zadkiel yn gröew ddigon mai dim ond 360,006, sef tri chant a thriugain a chwech o filoedd o filldiroedd, sydd rhyngom a theyrn y dydd. Cyfrifai Herschel bellder y lleuad oddiwrthym yn 237,000 o filldiroedd; eithr haera Zadkiel mai dim ond 32,828 ydyw. Dywed efe, pe buasai y lleuad mor belled oddiwrth y ddaear ag y tybia Herschel, nas gallasai dyn â'r llygad noeth ganfod cyfnewidiadau dullweddau ei hwyneb.

Yn awr, y mae Zadkiel nid yn unig yn dyweyd felly, ond yn dwyn yn mlaen ei resymau a'i gyfrifiadau rhyfeddol dros yr hyn a ddyweda.

A chyfrif nad oes ond dau yn darllen pob almanac, y mae o leiaf 170,000, sef wyth ugain a deng mil o bobl yn darllen ei waith, ac mewn perygl o gael eu camarwain ganddo. Ai bychan yn ngolwg dysgawdwyr yw fod cynifer o filoedd o honom yn cael ein tywys ar gyfeiliorn felly gan ynfyd-ddyn neu dwyllwr? Os dim ond pw, pw, *nonsense*, &c., a geir yn lle gwrthbrofion i osodiadau Zadkiel, digon tebyg y bydd derbynwyr ei almanac yn 200,000 yn fuan; ac yn mhlith y nifer ceir canoedd, os nid miloedd, o fechgyn dwyieithog Cymru.

Mae yn yr almanac lawer o ddaroganau a phrophwydoliaethau ag y gellid yn ddigon diberygl adael rhwng y darllenwyr cyffredin a hwy—yr un a fynont ai eu credu ai peidio. Ond yr wyf fi yn tueddu i gredu y dylai pobl gyfarwydd mewn seryddiaeth gymeryd i fynu bwnc y pellder rhyngom a'r haul a'r lloer, a dangos fod Newton a Herschel yn gywir yn eu cyfrifiadau, neu gyduabod fod, neu y gall fod, Zadkiel yn ei

le. Cofier nad pobl isel ac anwybodus yn unig sydd yn ymgynghori â'r sêr-frudyddion, ac yn darllen eu gwaith; oblegid cafwyd allan yn ddiweddar fod rhai o brif ddynion senedd Prydain Fawr wedi bod yn ymofyn â Zadkiel, ac yn canfod gweledigaethau rhyfedd ei grystal.

Ystalyfera. T. D.

[Nid yw yn bosibl egluro y *modd* mae cyfrif pellder y ddaear a'r lleuad oddi wrth yr haul i neb ond yn unig i'r cyfryw ag sy'n hyddysg mewn *Geometry* a *Mathematics*. Gŵyr y sawl ydynt yn abl i farnu fod mesuriadau seryddwyr diweddar mor agos i'r gwir ag y gall dyn gyrhaeddyd trwy gyfryngoldeb yr *instruments* perffeithiaf ag y mae celfyddyd hyd yn hyn wedi allu wneyd. Pa fodd y mae darbwyllo y cyffredin mai anwiredd yw ffigwrau Zadkiel, nis gwyddom, os na chredant ddynion celfyddgar yn hytrach na sêr-swynion. A chyda golwg ar "brif ddynion senedd Prydain Fawr" yn ymofyn â swynwr, nid yw ryfedd yn y byd pan yr ystyriom fod dynion yn cael eu danfon i'r senedd, nid yn gymaint o herwydd eu dysgeidiaeth a'u deall â'u bod wedi llwyddo mewn masnach i bentyru cyfoeth. Pe ymwelech â chartrefi rhai o'r dynion sydd yn y senedd, digon tebyg y gwelech ar ddrysau eu tai swynion i gau allan reib-wragedd. Pa ryfedd gan hyny eu bod yn ymweled â dyn hysbys? Nid yw yn canlyn o herwydd fod dyn yn aelod o'r senedd ei fod am hyny yn gallach nag eraill o blant Adda.—GOL.]

SADWRN A SUL.

SADWRN.—Eira, gwlaw, gwynt, a llaid! John, bore annymunol iawn ydyw; rhaid i chwi anwisgo eich hun yn dda, a chymeryd gofal mawr o honoch eich hunan, rhag ofn i chwi gael anwyd, a thaflu eich hun i bwl o afiechyd, yr hyn nid yw yn bein dymunol, a'r hyn hefyd a ddylem ochelyd hyd y gallom.

"Oh, nac ofnwch droswyf fi; gosodaf fy *waterproof* am danaf, a'm esgidiau trymion am fy nhraed, ac âf trwy yr eira, y gwlaw, y gwynt a'r llaid yn eithaf diogel. Os dygwydd i ddydd Sadwrn fod yn wlyb, nid oes dim i'w wneuthur ond ymroi ati."

SUL.—Eira, gwlaw, gwynt, a llaid! John, bore diflas iawn eto; dychymygaf nad ewch chwi ddim allan o'r tŷ heddyw; y mae yn beryglus i chwi i gael anwyd.

"Na, nid wyf fi yn meddwl y byddai hyny yn iawn. Yn wir, y mae yn ofynol i ddyn gymeryd gofal mawr o hono ei hun ar dywydd garw fel yma; a byddai yn annoeth ac yn beryglus i fyned allan ar y fath fore, ac o blegid hyny yr wyf yn penderfynu difyru fy hun y modd goreu y gallaf; ac os dygwydd i'r tywydd fod yn fwy ffafriol o gylch hanner awr wedi chwech y prydnawn, âf i ymweled â rhai o'm ffryndiau yn y Bryn."

SADWRN.—John, yr ydych yn edrych yn flinedig iawn y bore yma. Gallwn feddwl nad ydych yn agos iach.

"Ydwyf, yr wyf yn flinedig, ond nid yn neilldiol felly; heblaw, ni thâl hi ddim i roddi ffordd i deimladau marwaidd; y mae genyf waith caled, ac y mae yn rhaid i mi ei gyflawni. Hefyd, bydd marchnad dda heddyw, a rhaid i mi wneyd y goreu o honi."

SUL.—John, yr ydych yn flinedig iawn y bore yma.

"Ydwyf, yr wyf yn flinedig yn wir. Gorphwysaf heddyw, yr wyf yn meddwl, yn lle myned i'r cwrdd. Gwnaiff hûn dda ar y *sofa* les mawr i mi; ac yr wyf yn gobeithio yr aiff Mr. Abraham Richards ac eraill i'r cwrdd i wrando ein gweinidog da a doniol ni yn traethu y genadwri nefol—modd bynag, nis gallaf fi fyned heddyw."

SADWRN.—Oh, Mr. Dives, y mae yn ddrwg genyf ddyfod mor ddiweddar! Ond y mae yma wr boneddig yn ymofyn rhyw gymaint o geirch a barlys, a gwahanol bethau eraill genych. Yn wir, y mae ganddo *order* yn iawn: ond wrth edrych ar eich wynebpryd, gallwn feddwl eich bod yn flinedig iawn.

"Oh, nac wyf ddim, nac wyf ddim; byddaf gyda chwi mewn eiliad neu ddau. Oh na, ni theimlais i erioed yn llai blinedig. Yn sicr i chwi, y mae yn hoff iawn gen' i ddyfod i wneyd masnach â'r gwr boneddig da."

SUL.—Oh, Mr. Dives, drwg genyf eich aflonyddu; ond yr ydym ni mewn angen mawr am athraw yn yr Ysgol Sul y prydnawn yma. Da chwi, deuwch a rhoddwch law o gymhorth i ni i gario yr achos da yn mlaen.

"Wel, na, yn wir, nis gallaf ddyfod heddyw. Bum yn y ffair ddoe, a gweithiais yn galed iawn yno; ac yr wyf yn teimlo yn hynod flinedig. Rhaid i chwi ymdrechu cael rhywun arall ag nad oes cymaint o waith ganddo ag sydd genyf fi yn ystod yr wythnos. Yr wyf fi wedi codi yn fore, ac wedi methu myned i orphwys mewn pryd yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Heblaw hyny, y mae Siencyn y gôf a Simon y crŷdd yn byw yn nês i'r capel na mi; ewch, a cheisiwch ganddynt hwy."

SADWRN.—Mr. Dives, y mae cyfarfod cyhoeddus i gael ei gynal yn neuadd y dref heno i siarad yn nghylch rhai gwelliantau gofynol ynddi, ac y mae'r maer yn gobeithio y byddwch chwi yn bresenol.

"Diolch yn fawr i chwi; bydd yn dda iawn genyf fod yn wyddfodol, er fod genyf lawer iawn o waith i'w wneyd heno."

SUL.—Mr. Dives, y mae cwrdd gweddi i gael ei gynal heno yn nhŷ y brawd Thomas Hughes, Cwmparc, ac yr ydym ni yn gobeithio y cawn y pleser o'ch gweled chwi yno. Mae y brawd Hughes, fel y gwyddoch, wedi cael ei analluogi i ddyfod i'r addoliad cyhoeddus er's amser maith, ac y mae wedi dymuno arnoch chwi a'r brodyr eraill i ddyfod i ymweled âg ef. Mae y gair yn dyweyd wrthym am ddyddanu ein gilydd, a dwyn beichiau ein gilydd, onid yw? Da chwi, Mr. D., deuwch.

"Y mae yn ddrwg iawn genyf glywed fod yr hen frawd ffyddlon Thomas Hughes mor ffaeledig; ac y mae yn beth sicr y gwnelai cwrdd gweddi les iddo: ond gan fy mod wedi bod oddi cartref heddyw, nis gallaf fi fyned gyda chwi heno. Heblaw hyny, y mae cyfaill nad wyf wedi ei weled er's amser maith ar ymweliad gyda mi. Yr wyf yn gobeithio y cewch chwi gyfarfod gweddi hwylus. Nos da i chwi."

O. F.

RUDOLPH SUFFIELD.

AFRAID yw cynyg esgus am osod y llythyr canlynol o flaen ein darllenwyr. Offeiriad Pabaidd yn Birmingham yw Rudolph Suffield, ac wedi ei ddwyn i fynu o'i febyd gyda'r Catholiciaid, yn mhlith pa rai y mae ei berthynasau a'i gyfeillion anwylaf. Wele y dyn da hwn wedi ymadael â'i eglwys a rhoddi i fynu ei offeiriadaeth er mwyn ufuddhau i lais cydwybod. Mae ei lythyr fel y canlyn:—

32, *Ann Street, Birmingham, Awst* 22*ain*, 1870.

Fy anwyl Syr,—Mae fy nghylafaredd anghyhoedd mor lluosog yn bresenol, fel nad yw yn gyfleus i mi chwanegu at fy ngwaith i roddi y cymhorth llenyddol ag ydych yn gwneuthur i mi y ffafr o geisio genyf. Heblaw hyny, y mae eich cylch

grawn galluog yn cyfranogi i raddau o nodweddiad dadleugar, ac yn cael ei ystyried yn wrth-Gatholicaidd. Y mae fy amgylchiad i yn un neilldiol. Yr ydwyf wedi rhoddi i fynu bob swydd yn yr Eglwys Gatholicaidd, ac wedi gadael heibio gyflawniad y defodau offeiriadol. Oherwydd y berthynas agos oeddwn yn ddal â Chatholiciaid Lloegr, mae yr ymddygiad hwn o'm heiddo yn achosi poen mawr i lawer na ddymunwn er dim eu gofidio. Nid wyf, am hyny, yn dewis gwneuthur dim ond yr hyn y mae amgylchiadau anhebgorol a llais cydwybod yn ofyn oddiwrthyf. Nid oes dymuniad genyf i flino neb o'r cyfryw ag sydd ganddynt gymaint o hawl i'm serch, fy niolchgarwch, a'm parch.

Ar ol meddwl dwys a hir, myfyrdod, cynghor, a gweddi, deuais i'r penderfyniad fod yn anmhosibl i mi aros yn hwy yn y swydd offeiriadol. Mae anffaeledigrwydd y Pab a'r Ysgrythyrau yn amhëus genyf, am hyny nid allaf addef gwirionedd yr athrawiaethau a orphwysant ar eu hawdurdod.

Y mae dymuniad genyf i uno âg ereill i addoli, ac i'w cynorthwyo yn nghyflawniad rheol ddeublyg cariad ac egwyddorion sylfaenol efengyl Iesu Grist. Rhaid i mi o hyn allan fod yn hollol rydd oddiwrth bob math o lyffetheiriau crefyddol.

Er yn awr yn rhydd oddiwrth bob rhwymedigaethau fy urdd offeiriadol, nid wyf yn dewis ystyried fy hun fel wedi fy nyeithrio oddiwrth yr Eglwys Gatholicaidd na chymdeithasau Cristionogol ereill trwy unrhyw weithred bersonol. Nid wyf yn ymadael â neb, nac yn uno â neb. Nid wyf chwaith yn cymeryd agwedd elynol at neb. Os dewisa rhywun daflu anathema, nid yw y llall yn rhwym o'i derbyn na'i thaflu yn ol.

Yr wyf wedi cael ar ddeall fod y sawl a elwir Undodiaid, Cristionogion rhydd, neu Theistiaid Cristionogol, fel hyn yn cytuno i gario yn mlaen addoliad Duw dan bwys hunan-annigonolrwydd, gostyngeiddrwydd, a chariad, heb fod yn gaeth mewn rhwymau sectaraidd. Yr wyf yn deall fod eu haddoliad yn un syml heb fod yn wael, yn gorphwys ar safon rhinwedd, dealldwriaeth, ac uniondeb, wedi ei ffurfio ar draddodiadau Cristionogol, ac yn sylfaenedig ar yr Ysgrythyrau Santaidd. Yr wyf yn deall eu bod yn dal at yr yspryd a ddangosir gan Iesu Grist, a'r syniadau mawrion trwy rinwedd pa rai yr adeiladodd i fynu adfeiliad y byd moesol; nad ydynt, er hyny, yn cymhell derbyniad o athrawiaethau dyrys fel angenrheidrwydd, na chwaith yn ystyried eu gwrthodiad yn drosedd yn erbyn Duw. Y maent yn gymundeb o addolwyr Cristionogol. Er fod pob aelod yn rhydd, y maent trwy rym egwyddorion mawrion yn dal yn dawel eu sefydliad crefyddol, yn effeithio dylanwad dyrchafol a phwysfawr, ac yn cynyg crefydd i ddeall dyn yn yr agwedd ag y gall dynion meddylgar ei derbyn heb un math o ddirgel anffyddiaeth, a dynion difrifol heb wyrni coelgrefydd, neu waeledd caethiwed meddyliol i farn ereill. Y mae yr enwad Cristionogol hwn yn boddloni fy neall, ac yn meddu fy nghydymdeimlad.

Fy mwriad yw aros yn y weinidogaeth; ac y mae cyfrinach yn awr yn myned yn mlaen a ddiwedda, o bosibl, yn fy nerbyniad o swydd gyfatebol i arferion fy mywyd, ac un na'm gesyd mewn sefyllfa o elyniaeth i'm cyfeillion Catholicaidd wyf yn anrhydeddu ac yn garu, ac â'r rhai y dymunaf yn fawr fod bob amser yn gyfeillgar, oblegid yn allanol yn unig yr wyf yn ymadael â hwy, a hyny oherwydd fy mod yn methu credu rhai athrawiaethau a dybir ganddynt yn angenrheidiol i iachawdwriaeth. Yr wyf yn diolch i chwi am eich cynyg, ac yn awr wedi egluro fy sefyllfa, a dangos nad yw y dyfodol y'ch awdurdodir chwi i osod o'm blaen yn yr Eglwys Sefydledig yn bosibl, oherwydd fod yr Erthyglau a Chredo St. Athanasius yn rhwystrau anorchfygol ar fy ffordd.

Y mae yn eglur fod llawer sydd yn ysgrifenu ataf mewn camsynied mawr yn fy nghylch. Gobeithiant y bydd i mi ddynoethi cyfeiliornadau yr Eglwys Gatholic. Yr wyf yn perthyn i amryw deuluoedd Catholicaidd, ac yn gyfeillgar bron â phawb o honynt; am hyny, teimlaf gywilydd arnaf i feddwl y gall dyeithr dybied y bydd i un gair o'm genau i daflu gwaradwydd ar deuluoedd heirdd ac anrhydeddus. Y mae rhoddi i fynu gredu ac addoli gyda hwy yn ferthyrdod na all neb ddeall ond Catholiciaid.

Yr wyf yn awr wedi esgyn i safon arall o'm bywyd. Yr oedd yr esgyniad iddi yn gofyn dyoddefaint meddwl na wyr ond ychydig ddim am dano; ond yr wyf yn canfod gwaith o'm blaen i'w wneuthur, a thrwy fendith Duw ymdrechaf ei gyflawni. Ieuenctid, nerth, gwrhydri, a gobaith, ynt yn dychwelyd i mi gyda'r bwriad. Mae y gwirionedd a geir trwy ddyoddefaint yn anmhrisiadwy werthfawr. Yr eiddoch yn ffyddlon,

ROBERT RODOLPH SUFFIELD.

At y Parch. ——, *&c., &c.*

Mae y *Nonconformist*, papyr yr Independiaid, yn ysgrifenu fel hyn am y Tad Suffield,—"Yr ydym yn clywed, o amser i amser, am droiadau unigol o un ffydd neu enwad i un arall, y rhai nid ydynt yn werth nemawr, os dim, mor belled ag y maent yn perthyn i waith y byd, neu Gristionogaeth yn y byd. Yr ydym, gan hyny, yn cronicio am beth yw o werth—yr hyn, efallai, nid yw ddim, ac yn llai na dim—y ffaith foel at yr hon y mae ein sylw wedi cael ei alw yn neilldu ol, fod y Tad enwog Suffield wedi gadael cymundeb Eglwys Rhufain. Mae y Tad Suffield, yn ddiau, wedi bod yn nodedig yn ei ddydd. Y Tad Suffield oedd yr hwn a ailsefydlodd geintogau Pedr yn Lloegr; yr hwn oedd y cyntaf i alw am Zouaves Pabaidd Seisnig, ac a'u cafodd; yr hwn oedd braidd yn fwy Pabaidd na'r Pab ei hun. Ond y mae 'anffaeledigrwydd' wedi bod yn ormod hyd yn nod i'r Tad Suffield, ac y mae, am hyny, yn ysgrifenu i'r *Church Opinion* ei fod wedi rhoi i fynu y cymundeb Catholicaidd. Wel, gobeithiwn y bydd yn ddefnyddiol mewn lle arall."

A fuasai iaith y *Nonconformist* mor sych a chwta pe buasai y Tad Suffield wedi myned trosodd at yr Independiaid? Digon tebyg y buasai yn canu ei udgorn yn dra uchel; ond am fod y Tad Suffield wedi addef ei hun yn Undodwr, rhaid siarad yn ysgafn am ei onestrwydd a'i wrhydri moesol a chrefyddol. Y fath beth atgas yw culni crefyddol!

Nid yw yn annhebyg y bydd i Mr. Suffield dderbyn gwahoddiad i un o'n pwlpudau ni. Pell ydym ni o ymffrostio; ond nis gallwn lai na meddwl fod rhywbeth yn y syniadau Undodaidd ag sydd yn ymgynyg yn naturiol i'r meddwl, onitê pa fodd y mae i ni gyfrif am y ffaith fod dynion cryf-ddeall ac onest o fath y Tad Suffield a Baboo Keshub Chunder Sen yn eu cymeradwyo ac yn eu derbyn—dynion mor wahanol i'w gilydd yn eu cenedl, cyfansoddiad meddyliol, a'u dygiad i fynu—un yn Babydd selog, a'r llall yn Hindw? Nid ydym yn edrych ar y ffaith hon fel yn brawf digonol o wirionedd ein syniadau, ond yn wir y mae yn un foddhaol iawn i'n meddwl ni. Pa un a fydd i Mr. Suffield settlo lawr yn ein plith ni ai peidio, y mae i bregethu, Medi 18fed, yn eglwys yr Undodiaid, Upper Brook-street Free Church, Manchester.

AT Y GOLYGYDD.

Anwyl Syr,—Byddwch cystal â chyhoeddi yn eich rhifyn nesaf yr ateb canlynol i'r *Resolution* a gyhoeddwyd genych yn rhifyn Awst.

Mount Pleasant Garden, Aberdare,
Awst 17*eg*, 1870.

Yr eiddoch, &c.,
R. J. Jones.

55, *Grosvenor Park, Camberwell*, 16*th August*, 1870.

Sir,—In acknowledging the Resolution you have kindly forwarded to me, I beg you will assure the Unitarian Ministers of South Wales of my best thanks for the sympathy and interest they have expressed in my work in India. I trust their kind wishes will encourage me to persevere in that great work, and advance the cause of truth in my beloved country.

I am, Sir, yours very truly,
Keshub Chunder Sen.

R. J. Jones, Esq.

CHWECH PENNILL AR MOSES YN Y CAWELL.

1 'Rol cadw'r tlws faban dri mis yn guddiedig,
Pob dyfais a fethai ei gadw yn hwy;
Wrth feddwl 'i aberthu i lid Phar'oh ffyrnig
'Roedd calon pob aelod o'r teulu dan glwy'.
Pan giliai pob gobaith am gadw ei fywyd,
Serch tad a mam ynddo ymaflai yn dyn:
A'thybiaf braidd glywed Jocabed yn d'wedyd,
"Yn hytrach na'i roi i'r llofruddion gwnaf hyn:—

2 "O lafrwyn gwnaf gawell â'm dwylaw fy hunan,
Clai wlychaf â'm dagrau yn gymysg â phŷg;
Hwn gym'raf i'w ddwbio tu fewn a thu allan,
Ac ynddo gosodaf fy maban bach myg:
Ar fin Nilus löew, yn mysg yr hesg hirion,
Ei wared, efallai, wna'n Llywydd a'n Pen."
Ac Amram 'rol gwrando y cynllun, gan anfon
Ochenaid i'r nefoedd, a dd'wedai—"Amen."

3 Pob peth barotöwyd, a phob un o'r tueulu
A'i deimlad yn ddrylliog, a'i galon yn brudd,
Roes gusan 'madawol i'r bychan anwylgu,
A'u dagrau tryloewon hwy wlychent ei rudd.
Ac yna, yn nghanol yr hesg, yn ei gawell,
Ei osod yn ddirgel wnai'r teulu di-ffawd;
A Miriam benodwyd i sefyll o hirbell,
I wylio pa beth fyddai tynged ei brawd.

4 I ymyl yr afon, cyn hir, i ymolchi,
Merch Phar'oh a'i thegwedd lancesau a ddaeth;
Canfyddodd y cawell, a danfon, heb oedi,
Ryw un o'i morwynion i'w gyrchu a wnaeth.
A phan ei hagorwyd, y baban anwylaidd
O'i fewn a ganfyddent yn wylo yn brudd;
A d'wedodd Termutis* dosturiol yn fwynaidd,
"Mab un o'r Hebreaid fan yma y sydd."

5 Ar hyn d'wedodd Miriam yn wylaidd, "F' arglwyddes,
Ai da yn dy olwg a fyddai i mi
Gael myned i alw rhyw dirion Hebrëes
Yn fammaeth i fagu y bachgen i ti?"
A hithau wrth weled ei dlysni dihafal;
Heb unrhyw betrusder, anfonodd y fûn;
Yr hon a wnaeth redeg bob cam yn ddiattal,
I alw yn fammaeth ei fam ef ei hun.

6 Jocabed ddaeth yno yn llawen ei chalon,
A rhwydd am ei fagu cytunodd y ddwy.
Cael 'nol i'r hoff aelwyd y baban bach gwiwlon
Wellhaodd bob teimlad oedd gynt o dan glwy';
A diolch yn wresog i'r Nef am ei adfer
Yr awrhon a wnelai y teulu'n gytûn:
Fel yma ca'dd Moses drachefn am gryn amser
Breswylio yn nghanol ei deulu ei hun.

Coleg Caerfyrddin. J. GWRHYD LEWIS.

* Merch Pharaoh.

Y RHYFEL.

YR Ymherodraeth, am yr hon y dywedodd ei phenaeth flynyddoedd yn ol, mai heddwch oedd, sydd wedi diweddu mewn gwaed-dywalltiad echryslawn yn Sedan. Rhyddhawr Itali, arwr Solferino, amddiffynwr y Pâb, y teyrn a lanwodd Ewrop â'i enw tros ddeunaw mlynedd, sydd heddyw yn garcharor Brenin Prwssia, a'r Ymherodres a'i etifedd yma yn Lloegr—noddfa y mawrion yn eu hadfyd. Hefyd, cyn y bydd y geiriau hyn o flaen ein darllenwyr, bydd byddinoedd y gelyn yn gwarchae ar brif-ddinas Ffrainc! Dymchweliad ydyw hwn na feddyliodd neb am dano saith wythnos yn ol. Ni fu y fath laddfeydd erioed yn nghôf dynion ag a fu y tri diwrnod diweddaf yn Sedan, pan y rhoddodd deugain mil o filwyr Ffrainc eu harfau i lawr, a'r Ymherawdwr ei hun i fynu yn garcharor i'r Prwssiaid. Mae dros gàn mil o garcharorion yn awr yn Prwssia, a rhesymol yw meddwl na ŵyr y Prwssiaid pa fodd mae cael lle i'r fath luaws.

Unwaith eto mae gwerin-lywodraeth yn Ffrainc, dros ba hyd ni ŵyr neb. Mae rhyw sŵn, gan nad beth sydd wir, fod Brenin Prwssia yn dyweyd y bydd iddo ad-

feru Louis Napoleon i'w lywodraeth pan fyddo y rhyfel drosodd, a thelerau heddwch wedi eu setlo. Ni ryfeddem fawr na ymdrecha y Brenin William wneuthur hyn, oblegid câs gan ei enaid yw gwerin-lywodraeth; ond pa un a lwydda yn ei amcan, peth arall yw hyny.

Barnu yr ydym mai y peth mwyaf dymunol gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fyddai i ni y tro hwn roddi cronicl o'r rhyfel hyd yma. Byddai hwnw yn beth i gyfeirio ato yn ol llaw, a phan fyddo y rhyfel drosodd cawn, yn mhlith pethau ereill, osod ger eu bron delerau yr heddwch.

Gor. 14. Llywodraeth Ffrainc yn galw i maes yr ystôr o fyddinoedd (*army reserves*).

15. M. Ollivier yn hysbysu i'r *Legislative Assembly*, yn nghanol llawenydd dirfawr, fod Ffrainc wedi penderfynu myned i ryfel. Cynwrf mawr yn Paris, a lluaws yn dod yn nghyd yn y Boulevards yn canu y Marseillies, ac yn gwaeddi *Vive la Guerre*, nen *byw fyddo rhyfel.* Brenin Prwssia yn dychwelyd o Ems i Berlin, ac yn cael ei dderbyn gan dros 100,000 o'r dinaswyr, gan ei roesawi a chanu y *National Anthem.*

16. Yr Ymherawdwr yn derbyn aelodau y Senedd yn St. Cloud, ac M. Rouher, mewn anerchiad, yn dyweyd, "Mae eich mawrhydi wedi treulio y pedair blynedd diweddaf yn perffeithio yr arfogedigaeth a threfniadaeth y fyddin."

18. Mae y Corff Deddfwrol (*Legislative Assembly*) yn caniatâu 515,000,000 o ffranciau at draul y rhyfel.

21. Mae y Senedd Germanaidd Ogleddol yn caniatâu at yr un draul. Brenin Prwssia yn danfon anerchiad calonog i Frenin Bavaria, yr hwn sydd wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Ffrainc. Yr ergyd cyntaf yn y rhyfel yn cael ei saethu mewn ysgarmes yn Saarbruck.

22. Yr Ymherawdwr yn derbyn anerchiad oddiwrth y Corff Deddfwrol, ac yn mynegi fod rhyfel yn gyfiawn pan fyddo yn cael ei gymeradwyo gan y wlad. Gorchymyn i chwech corff milwrol (*army corps*) gael eu gosod mewn trefn rhyfel. Y Prwssiaid yn dinystrio pont Kehl yr ochr nesaf i Baden.

23. Cenhadwr o Ffrainc yn hysbysu cyhoeddiad rhyfel i Lywodraeth Prwssia. Yr Ymherawdwr yn danfon allan gyhoeddiad i ddangos mai Prwssia sydd yn atebol am y rhyfel.

24. Ysgarmesau bychain yn Gersweiler ac yn agos i Saarlouis. Gwaywffynwyr Prwssiaidd yn tori pont y rheilffordd rhwng Sarreguemines a Haguenau. Y Llyngesydd Bouet Willaumez yn dyrchafu ei luman yn Cherbourg, a'r Ymherodres yn ymweled â'r llynges.

27. Yr Ymherodres yn cael ei hapwyntio yn rhaglywyddes yn absenoldeb yr Ymherawdwr.

28. Yr Ymherawdwr a'i fab yn gadael St. Cloud i fyned i faes y rhyfel, ac yn dyfod i Metz am saith o'r gloch prydnawn. Pedair-ar-ddeg o drefydd Ffrainc yn cael eu gosod mewn cyflwr o warchae. Y llynges Ffrengig yn ymddangos yn agos i Copenhagen.

30. Y dosparth cyntaf o'r fyddin Ffrengig yn Rhufain yn tirio yn Marseilles.

31. Brenin Prwssia yn anfon allan anerchiad "i'w bobl," yn rhyddhau carcharorion politicaidd, ac yn ymadael i faes y rhyfel.

Awst 2. Y Ffrancod yn ymosod ar y bryniau yn agos i Saarbruck, ac yn cymeryd meddiant o honynt, yn mhresenoldeb yr Ymerawdwr a'r Tywysog Ymherodrol. Y magnel Ffrengig a elwir *mitrailleuse* yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn yr ymgyrch hwn. Yr *Official Journal* yn cyhoeddi mai dyben y rhyfel yw rhyddau Deheubarth Germani a Denmark o gaethiwed Prwssia.

4. Cynghor rhyfel yn Metz, ac yn bresenol Mac Mahon a Bazaine, yn yr hwn y cytunir yn nghylch y modd y mae y rhyfel i gael ei gario yn mlaen. Tra mae y Cynghor yn eistedd, mae Tywysog Coron Prwssia yn ymosod wrth Weissenburg ar ddosbarth o gorff byddinol Mac Mahon, ac yn ei ddifodi bron oll. Y Cadfridog Abel Douay yn cael ei ladd, ac 800 yn cael eu cymeryd yn garcharorion.

5. Y fuddugoliaeth yn Saarbruck yn achosi llawenydd mawr yn Paris. Yn y prydnawn y mae'r newydd o'r aflwyddiant a buddugoliaeth y Prwssiaid yn Weissenberg yn dyfod, a lluaws o bobl yn eu cynddeiriogrwydd yn tòri ffenestri Leon a Dreher, cyfnewidwyr arian, ac M. Hirsh, y bancwr.

6. Y mae Tywysog y Goron yn ymosod ar Mac Mahon yn ei amddiffynfa gadarn ar y bryniau uwch Wörth, ac ar ol chwech awr o ymladd caled yn ei faeddu yn hollol. Yr oedd colled y Ffrancod yn chwech mil o wyr, deg magnel ar hugain, chwech mitrailleuse, a dau eryr. Ar yr un amser ymosodir ar gorph byddinol y Cadfridog Frossard, yr hwn oedd mewn meddiant o'r bryniau uwch Saarbruck. Ar ol ymladd trwy'r dydd y mae Frossard yn cael ei wthio yn ol mewn annhrefn i Metz.

7. Cyhoeddi talaeth y Seine mewn sefyllfa warchaeol, ac y mae Cynghor y Weinyddiath i fod o hyn allan yn sefydlog yn y Tuileries.

10. Y Cadfridog Palikao yn ffurfio gweinyddiaeth newydd.

14. Y Prwssiaid yn ymosod ar y Ffrancod yn yr hwyr, yn agos i Pange a Courcelles. Oherwydd tywyllwch y nos mae'r ymladdfa yn cael ei rhoddi i fynu tan gaerau Metz, pob ochr yn hawlio y fuddugoliaeth. Mae yr Ymherawdwr yn cyhoeddi anerchiad ymadawol yn Metz, ac yn ymadael â'r amddiffynfa.

15. Bazaine yn cael ei apwyntio yn brif gadlywydd. Y Ffrancod yn amcanu myned i Verdun o Metz, ond yn cael eu danfon yn ol gan y Prwssiaid mewn ymladdfa yn agos i Gravelotte.

16. Y daith i Paris yn parhau, a blaen byddin Frederick Charles, yn cynwys 30,000, yn ymosod ar fyddin Bazaine yn Mars-la-Tour, gan feddwl mai yr ol-fyddin (*rear guard*) oedd. Brwydr waedlyd tros saith awr yn cael ei dal i fynu gan y Prwssiaid yn erbyn nifer mwy lluosog, hyd nes y daeth byddin o Hanoveriaid a thaleithiau y Rhine i'w cynorthwyo ; yna mae y Ffrancod yn gorfod cilio yn ol.

18. Ail gynyg i rwystro enciliad Bazaine i Verdun, a brwydr waedlyd Gravelotte yn cael ei hymladd drwy'r dydd. Bazaine yn gorfod dychwelyd yn ol i Metz.

20. Y gwersyll yn Chalons yn cael ei dori i fynu, a'r pebyll yn cael eu llosgi. Count Palikao yn amheu yn y Senedd i'r Prwssiaid ennill y frwydr ar y 18fed.

21. MacMahon yn myned i Rheims.

22. MacMahon yn gadael Rethel. Tywysog Coron Saxony yn cymeryd arno lywyddiaeth 100,000 o wyr i weithredu yn Ardennes.

25. MacMahon yn gadael Rethel, gan arwain ei fyddin tua Montmedy, heibio Mezieres a Vouziers.

26. Bazaine yn cynyg tòri allan o Metz ar y ffordd i Courcelles, ond yn gorfod cilio yn ol.

29. MacMahon yn gwersyllu, â 100,000 o wyr, yn Vaux, rhwng Mouzon a Carignan, a De Failly rhwng Beaumont a Stonne.

30. Yr ymosodiad ar De Failly ar yr ochr chwith i'r afon Meuse, ac ar MacMahon ar yr ochr ddê. Y maent yn colli 7,000 yn garcharorion, ugain magnel, a holl ymdaith-drec y gwersyll. Yr Ymherawdwr o'r braidd yn gallu dianc i Sedan.

31. Brwydr hir a gwaedlyd rhwng gwastadedd Douzy a Bazeilles. Y Ffrancod yn cilio yn ol i Sedan.

Medi 1. Brwydr fawr a therfynol yn cael ei hymladd o flaen ac oddeutu Sedan. Miloedd o'r Ffrancod yn dianc i Belgium.

2. Y Cadfridog MacMahon, yr hwn sydd wedi ei glwyfo, yn trosglwyddo llywyddiaeth y fyddin i'r Cadfridog Wimpffen, ac yntau yn rhoddi i fynu yr holl fyddin yn garchorion i'r Prwssiaid. Rhyw ystôr ddirfawr o ymborth, magnelau, *mitrailleuses*, ceffylau, a llawer o bethau ereill yn myned i feddiant y gelyn, ac o'r diwedd y mae'r Ymherawdwr yn danfon ei gleddyf i'r brenin, yr hwn sydd yn apwyntio iddo breswylfod fel carcharor yn Wilhelmshohe, yn Cassel ! Dyma fel y mae mawredd y byd hwn wedi darfod y tro yma. Y mae byddinoedd y Prwssiaid yn awr ar eu taith i gymeryd Paris, y brif-ddinas. Pa un a lwyddant ai peidio, amser a ddengys yn fuan. Y mae Metz, Toul, Salsburg, a Phalsburg, yn dal allan hyd yn hyn yn erbyn y lluoedd o'r gelyn sydd yn eu gwarchae. Y mae yn Paris yn bresenol o leiaf 200,000 o filwyr o bob math.

MARWOLAETHAU.

Dydd Gwener, Gorphenaf 29ain, yn saith mis oed, Rachel, anwyl blentyn Rees a Margaret Richards, Blaennantygroes Road, Cwmbach, wedi byr gystudd. Ymddangosai yr un fechan yn weddol iach a siriol ddydd Iau cyn marw o honi ar ddydd Gwener. Y Llun canlynol rhoddwyd "y pridd i'r pridd" yn mynwent Eglwys Barliamentaidd Heolyfelin, Aberdâr.

"Yr ieuanc hardd a'r baban gwan,
Y beddrod isel yw ei rhan."

Cyn cychwyn o'r tŷ gweinyddodd y Parch. E. W. Lloyd.

Awst 25ain, yn Trebannos Cottage, Pontardawe, Jane, anwyl wraig y Parch. John Evans, o Gellionen, yn 26ain oed.

Awst 29ain, yn 20, Highbury Terrace, y Parch. Thomas Madge, yn 84ain oed. Bu Mr. Madge yn weinidog Capel Essex Street, Strand, bedair blynedd ar ddeg ar hugain.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.